
DEDDF NWY 1986

A

DEDDF CAFFAEL TIR 1981

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL NATIONAL GRID GAS PLC (PROSIECT
RHWYDWAITH NWY GORLLEWINOL) 2022**

DATGANIAD O ACHOS

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD.....	1
2	PWERAU Y GWNEIR Y GORCHYMYN ODDI TANYNT	1
3	YR ANGEN AM Y PROSIECT	2
4	DATBLYGU'R PROSIECT A DEWISIADAU AMGEN	8
5	DISGRIFIAD O'R PROSIECT.....	18
6	TROSOLWG O DIR Y GORCHYMYN- FISHER GERMAN MEWN YMGYNGHORIAD Â THIMAU TIROEDD A PHEIRIANNEG NGG.....	23
7	TIR A HAWLIAU NEWYDD SYDD I'W CAFFAEL.....	25
8	YR YMAGWEDD AT GAFFAEL TRWY GYTUNDEB	26
9	CYDSYNIADAU SY'N OFYNNOL AR GYFER Y PROSIECT	28
10	YSTYRIAETHAU ARBENNIG.....	30
11	DARPARU AC ADNODDAU	32
12	YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF CYDRADDOLDEB.....	33
13	DATGANIAD SY'N CYFIAWNHAU MAINT Y CYNLLUN SYDD I'W DDIYSTYRU AT DDIBENION ASESU IAWNDAL YN Y 'BYD DIM CYNLLUN'	34
14	SAFBWYNTIAU ADRANNAU'R LLYWODRAETH.....	35
15	CASGLIAD.....	35
16	GWYBODAETH YCHWANEGOL.....	37

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Y ddogfen hon yw Datganiad Achos ("**Datganiad**") National Grid Transmission Plc¹ ("NGT") a baratowyd mewn cysylltiad â Gorchymyn Prynu Gorfodol National Grid Gas Plc (Prosiect Rhwydwaith Nwy Gorllewinol) 2022 ("**y Gorchymyn**") (**CD C1**) a wnaed gan NGT ar 20 Hydref.
- 1.2 Os caiff ei gadarnhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, bydd y Gorchymyn yn awdurdodi NGT i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd mewn tir sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu rhan 9km newydd o biblinell nwy rhwng Wormington (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon); rhan 2km newydd o biblinell nwy yn Churchover (Swydd Warwig); gwaith i hwyluso uwchraddio gwasgedd y biblinell nwy bresennol rhwng Felindre (Abertawe) ac Aberllynfi (Powys) a Chilffriw (Castell-nedd Port Talbot); a gwaith cysylltiedig ar osodiadau presennol ar ben y tir ("**y Prosiect**"), y mae gan NGT Drwydded Trawsgludwr Nwy (**CD E1**) ar eu cyfer (gweler adran 2 isod am ragor o wybodaeth).
- 1.3 Gwnaed y Gorchymyn yn unol ag adran 9 ac atodlen 3 Deddf Nwy 1986 (**CD A4**) ("**Deddf 1986**") a chan ystyried Canllawiau'r Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y broses Prynu Gorfodol a Rheolau Crichel Down (Gorffennaf 2019) ("**y Canllawiau CPO**") (**CD A15**).
- 1.4 Mae'r Datganiad hwn yn ddatganiad o dan Reol 7 Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2007(**CD A9**). Mae NGT yn cadw'r hawl i'w newid neu ei ymestyn, fel y bo'r angen.
- 1.5 Yn y Datganiad hwn, cyfeirir at y tir sy'n ddarostyngedig i bwerau prynu gorfodol fel "**Tir y Gorchymyn**". Disgrifir Tir y Gorchymyn yn adran 6 y Datganiad hwn ac fe'i dangosir wedi'i liwio'n binc (caffael rhydd-ddaliad) a glas golau, glas tywyll, gwyrdd, porffor, melyn, oren, brown a chroeslinellau sengl coch (caffael 'pecynnau' o hawliau) ar fapiau sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn ("**Mapiau'r Gorchymyn**") (**CD C2**). Mae nifer o achosion hefyd lle y cynigir caffael dau 'becyn' hawliau dros yr un llain o dir yn y Gorchymyn, a dangosir y rhain trwy groeslinellu un lliw dros un arall, fel y manylir ymhellach ym mharagraff 5.14 isod ac a ddangosir yn yr allwedd/esboniad i Fapiau'r Gorchymyn.
- 1.6 Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynnwys Atodlen Buddiannau sy'n amlygu'r unigolion hynny sydd â buddiant yn y tir y mae'r Gorchymyn yn effeithio arno.

2. PWERAU Y GWNEIR Y GORCHYMYN ODDI TANYNT

- 2.1 Gwneir y Gorchymyn o dan adran 9 ac atodlen 3 (**CD A4**) Deddf 1986.
- 2.2 Mae adran 9 (**CD A4.2**) Deddf 1986 yn nodi bod y pwerau yn atodlen 3 (**CD A4.3**) (sy'n darparu ar gyfer prynu tir yn orfodol) yn berthnasol o ran deiliad trwydded trawsgludwr nwy.
- 2.3 Mae paragraff 1(1) Atodlen 3 (**CD A4.3**) Deddf 1986 yn datgan:

"Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori â'r Cyfarwyddwr², awdurdodi trawsgludwr nwy i brynu unrhyw dir yn orfodol."

¹ Ar 31 Ionawr 2023, cwblhawyd gwerthu cyfranddaliadau yn National Grid Gas Plc. O ystyried mai gwerthiant cyfranddaliadau oedd y trafodyn, yr endid cyfreithiol sy'n cynnwys National Grid Gas Plc yw'r endid sy'n trawsgludo nwy o hyd ac nid oedd rhif y cwmni wedi newid. Fodd bynnag, ailenwyd y cwmni'n "National Gas Transmission Plc", yn effeithiol o 6 Chwefror 2023.

² Bydd cyfeiriadau at y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyflenwi Nwy ("y Cyfarwyddwr") yn cael eu hystyried yn gyfeiriadau at yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan ("yr Awdurdod") (20.12.2000) trwy gyfrwng Deddf Cyfleustodau 2000 (c. 27), adran 3(2); O.S. 2000/3343, erthygl 2, Atodlen (**CD A8.1**)

- 2.4 Mae paragraff 1(2) atodlen 3 (**CD A4.3**) Deddf 1986 yn cadarnhau bod "Tir" yn cynnwys unrhyw hawl dros dir, a bod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys pŵer i awdurdodi caffael hawliau dros dir trwy greu hawliau newydd, yn ogystal â chaffael rhai presennol. Mae hyn yn cynnwys creu hawliau sy'n gyfystyr â hawddfaint a "hawliau cyfyngol", yn debyg i gyfamod cyfyngol.
- 2.5 Mae gan NGT Drwydded Trawsgludwr Nwy ("**Trwydded**") (**CD E1**) a roddwyd gan yr Awdurdod o dan adran 7 (**CD A4.1**) Deddf 1986.
- 2.6 Felly, ceir awdurdodi NGG i brynu'n orfodol tir a/neu hawliau sy'n ofynnol i alluogi NGT i gynnal y gweithgareddau a awdurdodir gan ei Drwydded, ac mae'r holl dir a hawliau mewn tir y cynigir eu caffael o dan y Gorchymyn yn angenrheidiol at y dibenion hynny.
- 2.7 Y prif brawf y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon arno er mwyn cadarnhau'r Gorchymyn yw p'un a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd i gyfiawnhau'r ymyrraeth arfaethedig â hawliau preifat y rhai hynny sydd â buddiannau yn Nhir y Gorchymyn (paragraff 12 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**).
- 2.8 Mae nifer o ystyriaethau cyffredinol wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau CPO (**CD A15**) y mae angen i NGG eu dangos er boddhad yr Ysgrifennydd Gwladol:
- 2.8.1 bod gan NGT syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir (neu'r hawliau dros dir) y mae'n bwriadu ei gaffael (paragraff 13 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**);
- 2.8.2 bod NGT wedi cymryd camau rhesymol i gaffael yr holl dir a hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn trwy gytundeb (paragraff 2 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**);
- 2.8.3 bod y Prosiect yn annhebygol o gael ei atal gan unrhyw rwystrau ffisegol neu gyfreithiol rhag gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- 2.8.3.1 rhaglennu unrhyw waith hwyluso seilwaith neu waith adfer a allai fod yn ofynnol; ac
- 2.8.3.2 unrhyw angen am ganiatâd cynllunio neu gydsyniad neu drwydded arall (paragraff 15 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**)
- 2.8.4 bod yr holl adnoddau angenrheidiol yn debygol o fod ar gael o fewn amserlen resymol (paragraff 13 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**); a
- 2.8.5 bod cyllid ar gael nawr neu y bydd ar gael yn gynnar yn y broses ar gyfer caffael y tir sy'n angenrheidiol/yr hawliau angenrheidiol dros dir ac adeiladu'r Prosiect (paragraff 14 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau CPO) (**CD A15**).
- 2.9 Mae'n rhaid bodloni profion ychwanegol pan gynigir caffael mathau arbennig o dir.
- 2.10 Ymdrinnir â'r profion uchod ar gyfer pwerau prynu gorfodol yn adran 15 isod.

3. **YR ANGEN AM Y PROSIECT**


Rôl NGT yn yr 'ecosystem' nwy

- 3.1 Er bod Prydain Fawr wrthi'n newid i economi carbon isel, mae nwy yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o ynni sy'n darparu ffynhonnell ddiogel a dibynadwy o wres/pŵer i fwy nag 80% o'r cartrefi a'r busnesau ym Mhrydain.

3.2 Mae nwy yn cael ei gyflenwi o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig, Norwy, Mewnforion Nwy Naturiol Hylifedig (“**LNG**”), Rhyng-gysylltyddion Ewropeidd a storio. Mae un farchnad nwy yn gwasanaethu Prydain Fawr i gyd, ac yn y farchnad gyfanwerthu gystadleuol hon, mae cludwyr a chyflenwyr nwy yn masnachu nwy yn ddyddiol a’i gyflenwi i gwsmeriaid/defnyddwyr.

3.3 Dangosir ‘ecosystem’ nwy Prydain Fawr yn Ffigur 1 ac fe’i hesbonnir yn fanylach isod:

Ffigur 1 – Yr Ecosystem Nwy



3.4 Mae’r System Drawsyrro Genedlaethol (“**NTS**”) yn rhwydwaith nwy gwasgedd uchel sy’n cludo swmp-gyflenwadau o nwy ar hyd a lled Prydain Fawr. NGT sy’n berchen ar yr NTS nwy a’i gweithredu, ac mae’n gyfrifol am sicrhau bod nwy yn cael ei gludo’n ddiogel ac yn effeithlon o’r man lle y caiff ei brynu i mewn i’r wlad i’r mannau lle y’i defnyddir, gan gydbwysu’r cyflenwad a’r galw o ddydd i ddydd.

3.5 Dechreuodd waith i ddatblygu’r NTS yn y 1960au ac mae newidiadau cynyddrannol wedi cael eu gwneud wedi hynny i fodloni galw cynyddol gan gwsmeriaid ac i gysylltu â ffynonellau newydd a rhyng-gysylltyddion â systemau trawsyrro eraill. Ar hyn o bryd, mae’r NTS yn cynnwys tua 8000km o biblinell gladdedig, ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig amrywiol.

3.6 Ac yntau’n gludwr nwy trwyddedig, nid yw NGT yn berchen ar y nwy a gludir o fewn yr NTS; mae’n berchen ar yr NTS ei hun.

3.7 Mae cludwyr nwy yn gwmnïau trwyddedig sy’n trefnu i nwy gael ei gludo o gynhyrchwyr, trwy derfynellau, i gyflenwyr. Gall cludwyr gaffael ‘capasiti’ sy’n rhoi’r hawl iddynt lifo nwy i’r NTS.

3.8 Mae Pwynt Mynediad System Cyfanredol (ASEP) Aberdaugleddau yn derfynell mynediad LNG yn ne Cymru, sy’n cynnwys dwy is-derfynell, un a berchnogir gan Dragon LNG a’r llall gan South Hook LNG. Yng nghyd-destun yr ‘ecosystem’ nwy, mae’r is-derfynell a berchnogir ac a weithredir gan South Hook LNG yn Derfynell a chyfeirir ati o hyn ymlaen fel ‘Terfynell South Hook’.

Dyletswyddau statudol NGT

3.9 Mae gan NGT rwymedigaeth statudol drosfwaol o dan adran 9 (**CD A4.2**) Deddf 1986 i ddatblygu a chynnal system biblinell effeithlon a darbodus i gludo nwy (h.y. yr NTS), ac i gydymffurfio, cyn belled ag y bo hynny’n ddarbodus, ag unrhyw gais rhesymol gan gludwyr nwy i gysylltu a chludo nwy i’r system honno. Mae’r adran hon hefyd yn gosod rhwymedigaeth ar NGT i hwyluso cystadleuaeth wrth gyflenwi nwy.

- 3.10 Ac yntau'n ddeiliad trwydded cludwr nwy o dan adran 7 (**CD A4.1**) Deddf 1986 (h.y. y Drwydded) (**CD E1**), mae'n ofynnol i NGT hefyd gydymffurfio â nifer o amodau trwydded safonol, arbennig ac arbennig safonol sy'n ffurfio fframwaith ar gyfer ei rôl fel datblygwr a gweithredwr yr NTS.
- 3.11 Mae nifer o amodau Trwydded sy'n pennu rhwymedigaethau NGT i ddelio â cheisiadau am gapasiti NTS, cynhyrchu datganiadau methodoleg sy'n diffinio prosesau capasiti sy'n cefnogi dyletswyddau NGT a gosod gofynion ar gyfer rhyddhau capasiti y mae rhwymedigaeth i'w ddarparu. Mae'r amodau hyn fel a ganlyn:
- Amod Arbennig 9.13- Ceisiadau Capasiti, Capasiti Sylfaenol ac Amnewid Capasiti
 - Amod Arbennig 9.17- Rhwymedigaethau a datganiadau methodoleg Capasiti Mynediad a Chapasiti Gadael.
 - Amod Arbennig 9.18- Methodoleg i bennu rhyddhau cyfeintiau Capasiti Mynediad a Chapasiti Gadael
- 3.12 Mae'n rhaid i NGT ddilyn y methodolegau capasiti a'r rhwymedigaethau fframwaith cymeradwy mewn modd anwahaniaethol, a rhyddhau capasiti pan fydd y prosesau hyn yn pennu hynny.

Cefnogaeth bolisi ar gyfer atgyfnerthu a datblygu seilwaith nwy

- 3.13 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau ynni newydd ac mae wedi cyhoeddi cyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ("**NPS**") sy'n amlinellu'r polisi cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni sy'n arwyddocaol yn genedlaethol, gan gydnabod bod darparu ynni fforddiadwy, dibynadwy a chynaliadwy yn fater allweddol ym mholisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Er eu bod yn berthnasol yn bennaf i'r prosiectau hynny sy'n dod o fewn y diffiniad o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ("**NSIPS**"), gallai'r NPSs fod yn ystyriaeth berthnasol hefyd ar gyfer prosiectau sy'n symud ymlaen o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) (**CD A5**).
- 3.14 Ar gyfer y Prosiect, bernir bod yr NPS ar gyfer Ynni (NPS EN-1) (**CD A13**), a'r NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (NPS EN-4) (**CD A14**), yn ystyriaethau perthnasol.
- 3.15 Mae'r NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1) (**CD A13**) yn cydnabod yn benodol bod "y Deyrnas Unedig yn dra dibynnol ar nwy naturiol" ac "y bydd nwy yn parhau i chwarae rhan bwysig yng nghymysgedd tanwydd y Deyrnas Unedig am flynyddoedd lawer i ddod" (paragraff 3.8.1). Mae paragraff 3.8.45 yn datgan "rhaid i seilwaith cyflenwi nwy Prydain Fawr, ymhlith pethau eraill, fod yn ddigonol i:
- *fodloni galw 'brig'. Mae'r gofyniad hwn yn fwy heriol o lawer na bodloni galw blynyddol. Gallai cyfranogwyr yn y farchnad nwy geisio cael rhywfaint o gapasiti "segur" yn eu trefniadau cyflenwi, uwchben y lleiafswm i fodloni galwadau brig, er mwyn rheoli'r risg efallai na fydd capasiti arall ar gael (er enghraifft, os yw'n destun gwaith cynnal a chadw);*
 - *caniatáu ar gyfer darparu cyfeintiau mawr o nwy yn barhaus, er enghraifft, o ganlyniad i'r angen i fod yn barod i fodloni'r galw dros aeaf arbennig o oer;*
 - *darparu mynediad at y cyflenwadau nwy mwyaf cystadleuol".*
- 3.16 Mae paragraff 3.8.7 yn mynd ymlaen i esbonio bod "angen cymysgedd amrywiol o seilwaith storio a chyflenwi nwy ar Brydain Fawr (gan gynnwys piblinellau a therynellau mewnforio nwy) i ymateb yn effeithiol yn y dyfodol i'r newidiadau mawr dyddiol a thymhorol yn y galw, a darparu capasiti gwydnwch yn ystod gaeaf oer" tra bod paragraff 3.6.2 yn esbonio rôl bwysig nwy yn y sector trydan ac yn crybwyll yn benodol y cyfleusterau LNG yn Aberdaugleddau, sy'n cynnwys Terfynell South Hook:

"Mae gorsafoedd cynhyrchu tanwydd ffosil yn cyfrannu at ddiogelwch y cyflenwad ynni trwy ddefnyddio tanwydd o amrywiaeth o gyflenwyr a gweithredu'n hyblyg. Bydd nwy yn parhau i gyflawni rôl bwysig yn y sector trydan – gan ddarparu hyblygrwydd hollbwysig i gefnogi mwy a mwy o gynhyrchu carbon isel ac i gynnal diogelwch y cyflenwad. Mae marchnad nwy'r Deyrnas Unedig wedi amrywiaethu ei ffynonellau cyflenwi nwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf, felly wrth i'r Deyrnas Unedig ddod yn fwy dibynnol ar fewnforio, nid yw cwmnïau sy'n cyflenwi'r farchnad yn ddibynnol ar un ffynhonnell gyflenwi. Mae hyn yn diogelu marchnad y Deyrnas Unedig rhag achosion o darfu ar y cyflenwad. Mae cyflenwadau nwy naturiol y Deyrnas Unedig yn dod o'r meysydd cynhyrchu ar Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig, trwy biblinell yn uniongyrchol o Norwy, ac o Ewrop gyfandirol trwy gysylltiadau â Gwlad Belg a'r Iseldiroedd. Mae nwy naturiol hylifedig (LNG) yn cael ei fewnforio trwy danceri, gyda chymorth buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau LNG fel y rhai hynny yn Isle of Grain ac yn Aberdaugleddau."

3.17 Mae paragraff 3.8.9 yn cydnabod "Wrth i gynhyrchu ddirywio yn Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig, mae'n debygol y bydd angen ystod o seilwaith:

- *seilwaith mewnforio newydd, o ran piblinellau mewnforio confensiynol, cyfleusterau derbyn nwy a chyfleusterau mewnforio LNG. Bydd y rhain yn angenrheidiol i ddarparu capasiti mewnforio ar gyfer marchnad nwy'r Deyrnas Unedig sy'n fwyfwy dibynnol ar fewnforio; ac*
- *mae angen mwy o gapasiti storio nwy, boed hynny ar ffurf nwyol mewn cyfleusterau storio tanddaear, neu fel LNG mewn tanciau uwchben y ddaear, i ddarparu 'cyflenwad cyfnewidiol' yn agos i'r farchnad er mwyn helpu i fodloni galw brig. Mae'r galw'n amrywio'n sylweddol drwy gydol y dydd ac mae angen i rai ffynonellau fod yn agos i'r farchnad fel bod nwy ar gael yn gyflym. Bydd angen i seilwaith cyflenwi nwy hefyd gyd-fynd ag unrhyw newidiadau yn y galw rhanbarthol am nwy ledled y Deyrnas Unedig – a allai newid o ganlyniad i newidiadau i leoliad poblogaeth a/neu alw masnachol neu ddiwydiannol."*

3.18 Mae paragraff 3.8.11 yn datgan "Mae capasiti mewnforio nwy yn rhoi mynediad at lifoedd blynyddol o nwy (sy'n gwneud iawn am y dirywiad mewn nwy brodorol sy'n cael ei gynhyrchu'n flynyddol), tra bod capasiti mewnforio nwy sy'n fwy nag arfer hefyd yn gallu helpu i ddarparu hyblygrwydd ar yr ochr gyflenwi (sy'n gwneud iawn am y gostyngiad mewn "gallu cyfnewidiol" nwy sy'n cael ei gynhyrchu'n frodorol)" tra bod paragraff 3.8.13 yn cydnabod "Nid oes ffordd "iawn" o gydbwysu marchnad nwy Prydain Fawr – ceir cyflenwadau brodorol, mewnforyn trwy biblinell, mewnforyn trwy LNG, neu storio (boed hynny'n amrediad pell, canolig neu fyr). Mae'r portffolio priodol o ffynonellau cyflenwi, a'r goblygiadau i'r seilwaith cyflenwi nwy, yn benderfyniadau masnachol, yn eu hanfod, i gyfranogwyr amrywiol y farchnad nwy (ac yn ffynhonnell mantais fasnachol iddynt, o bosibl). Un o gryfderau mawr y farchnad nwy Brydeinig yw'r ffordd y mae penderfyniadau masnachol ar wahân, gan nifer o gwmnïau ar wahân, yn cyfrannu at amrywiaeth gyffredinol ein cyflenwad nwy, gan hyrwyddo cyflenwadau sicr am brisiau cystadleuol."

3.19 Mae'r NPS ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4) **(CD A14)** hefyd yn cydnabod ym mharagraff 1.1.1 "Mae mewnforio, storio a throsglwyddo nwy naturiol a chynhyrchion olew yn effeithlon yn allweddol i fodloni ein hanghenion ynni yn ystod y newid i economi carbon isel. Ni allwn gyflawni amcanion cenedlaethol sy'n ymwneud â sicrwydd cyflenwad heb alluogi buddsoddiad mewn seilwaith newydd".

3.20 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft i ddisodli'r NPS EN-1 cyfredol **(CD A16)**, ac wedi bod yn ymgynghori arno.


3.21 Mae paragraff 3.4.4 y fersiwn ddrafft i ddisodli EN-1 yn cydnabod "Er bod y Papur Gwyn Ynni yn arwydd o symudiad pendant i ffwrdd oddi wrth nwy naturiol heb systemau rheoli carbon i ynni glân, ni all y trawsnewidiad hwn ddigwydd ar unwaith heb beryglu system ynni ddiogel, ddibynadwy a fforddiadwy" tra bod paragraff 3.3.5 hefyd yn cydnabod "y bydd angen trydan a gynhyrchir o nwy naturiol heb systemau rheoli carbon o hyd yn ystod y trawsnewidiad i sero net wrth i ni ddatblygu a defnyddio'r dewisiadau amgen carbon isel a all efelychu ei rôl yn y system drydan. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn aros yn ddibynadwy a fforddiadwy". Mae paragraff 3.3.6 yn datgan "Er y disgwylir i ddewisiadau amgen carbon isel allu efelychu rôl nwy naturiol yn y system drydan dros amser, mae'n

bosibl y bydd angen rhywfaint o gynhyrchu a bwerir gan nwy naturiol heb systemau dal a storio carbon, sy'n rhedeg yn anfyfych iawn, er mwyn sicrhau dibynadwyedd fforddiadwy hyd yn oed yn 2050, ond gall hyn fod yn gyson â sero net o hyd os yw'r allyriadau o'r defnydd ohonynt yn cael eu cydbwysu gan allyriadau negyddol o dechnolegau dileu nwyon tŷ gwydr."

- 3.22 Mae paragraff 3.4.1 yn esbonio "Mae gan danwyddau nwyol rôl allweddol yng nghyd-destun ynni'r Deyrnas Unedig, gan gyfrif am oddeutu 38% o'r prif alw am ynni yn 2019. Fe'u defnyddir yn y sector domestig ar gyfer gwresogi a choginio; yn y sector diwydiannol, fel ffynhonnell ynni ac fel deunydd crai ac, yn y sector cynhyrchu pŵer, fel ffynhonnell ddibynadwy o gapasiti cynhyrchu hyblyg. Yn yr adran hon, mae nwy, oni nodir fel arall, yn cynnwys nwy naturiol, biomethan a hydrogen."
- 3.23 Mae paragraff 3.4.2 yn mynd ymlaen i esbonio "Mae arnom angen cymysgedd amrywiol o seilwaith cyflenwi nwy, gan gynnwys piblinellau a chyfleusterau storio a derbyn, er mwyn cyflawni ein hamcanion ynni. Mae'n rhaid i'n seilwaith nwy, ymhlith pethau eraill, fod yn ddigonol i:
- *fodloni galw 'brig' am nwy. Gallai cyfranogwyr yn y farchnad nwy geisio cael rhywfaint o gapasiti "segur" yn eu trefniadau cyflenwi, uwchben y lleiafswm i fodloni galwadau brig, er mwyn rheoli'r risg efallai na fydd capasiti arall ar gael (er enghraifft, os yw'n destun gwaith cynnal a chadw)*
 - *caniatáu ar gyfer darparu cyfeintiau mawr o nwy yn barhaus, er enghraifft, o ganlyniad i'r galw dros aeaf arbennig o oer*
 - *darparu mynediad at y cyflenwadau nwy mwyaf cystadleuol. Oherwydd y bydd pris ffynonellau nwy yn amrywio dros amser, bydd hyn yn arwain at rywfaint o segurddod yn y seilwaith cyflenwi nwy. Felly, fe allai cyfranogwyr yn y farchnad weld gwerth clir mewn cael mynediad at nwy o wahanol ffynonellau – mewnfurion trwy biblinell, mewnfurion fel LNG, a nwy o chyfleusterau storio (yn enwedig yn agos i'r farchnad)"*
- 3.24 Mae paragraff 3.4.7 yn nodi "Wrth i gynhyrchu ddirywio yn Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig, a'r ddibyniaeth ar fewnfurion gynyddu, bydd angen i seilwaith nwy angenrheidiol fod ar gael i leihau'r potensial ar gyfer diffygion yn y cyflenwad neu risgiau prisiau i ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys bod â'r seilwaith mewnfurion angenrheidiol ar waith, o ran chyfleusterau derbyn nwy a chyfleusterau mewnfurion LNG. Mae hefyd yn cynnwys bod â chapasiti digonol i storio nwy er mwyn darparu 'cyflenwad cyfnewidiol' yn agos i'r farchnad i helpu i fodloni'r galw brig." Tra bod paragraff 4.4.8 yn cydnabod "Bydd angen i seilwaith cyflenwi nwy hefyd gyd-fynd ag unrhyw newidiadau yn y galw rhanbarthol am nwy ledled y Deyrnas Unedig – a allai newid o ganlyniad i newidiadau i leoliad poblogaeth, galw masnachol neu ddiwydiannol, a strategaethau cyffredinol a fabwysiadir i gyflawni ein targed sero net."
- 3.25 Gan adleisio'r fersiwn ddrafft i ddisodli EN-1, mae paragraff 1.1.1 y fersiwn ddrafft i ddisodli NPS EN-4 **(CD A17)** yn esbonio "Mae mewnfurion, storio a throsglwyddo nwy a chynhyrchion olew yn effeithlon yn parhau i fod yn allweddol i fodloni ein hamcanion ynni. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen parhaus am olew a nwy heb systemau rheoli carbon yn ystod y newid i economi sero net ar gyfer gwresogi, coginio, trydan a thrafnidiaeth, a chynhyrchu llawer o hanfodion pob dydd fel meddyginiaethau, plastigion, cynnyrch cosmetig a dyfeisiau'r cartref. Bydd hyn yn galluogi cyflenwadau sicr, dibynadwy a fforddiadwy o ynni wrth i ni ddatblygu'r modd o fynd i'r afael â'r carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd ohonynt, gan gynnwys datblygu dewisiadau amgen carbon isel."
- 3.26 Felly, mae datblygu'r Prosiect yn cyd-fynd â fersiynau cyfredol NPS EN-1 **(CD A16)** ac EN-4 **(CD A17)** y Llywodraeth a'r fersiynau drafft i'w disodli.

Yr Angen am y Prosiect

- 3.27 Mae South Hook LNG (“**SHLNG**”) yn berchen ar Derfynell South Hook a’i gweithredu. Mae SHLNG yn bwriadu gosod Anweddydd Hylosgi Tanddwr a Phwmp Anfon Allan Gwasgedd Uchel ychwanegol o fewn Terfynell South Hook a fydd yn cynyddu’r Gyfradd Ddyddiol Gynaliadwy Uchaf (MSDR) (h.y. faint o nwy y gellir ei lifo’n gyson gan ystyried dibynadwyedd, argaeledd ac amserlenni cynnal a chadw offer allweddol).
- 3.28 O ystyried y llifoedd nwy ychwanegol i’r NTS o Derfynell South Hook, cyflwynodd South Hook Gas Company Limited (“**SHGCL**”), sef y cludwr, gais am Gytundeb Cynllunio a Neilltuo Capasiti o Flaen Llaw (PARCA) i NGT, i neilltuo capasiti ar gyfer 163 GWh/d o nwy (tua 15 miliwn o fetrau ciwbig y dydd) i fynd i mewn i’r NTS. (Mae PARCA yn contract dwyochrog sy’n caniatáu i gapasiti mynediad tymor hir i’r NTS gael ei neilltuo ar gyfer cwsmer tra’i fod yn datblygu ei brosiect cyn iddo brynu’r capasiti hwnnw a neilltuwyd.)
- 3.29 Fel yr esboniwyd uchod, mae dyletswyddau NGT o dan Ddeddf 1986 yn mynnu ei fod yn datblygu ac yn cynnal system biblinell effeithlon a darbodus ar gyfer cludo nwy, ac yn cydymffurfio, cyn belled ag y bo hynny’n ddarbodus, ag unrhyw gais rhesymol gan gludwyr nwy i gysylltu a chludo nwy i’r system honno (h.y. ceisiadau PARCA).
- 3.30 Ystyriwyd PARCA SHGCL yng nghyd-destun Senarios Ynni yn y Dyfodol (gweler paragraff 3.32 isod), dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol NGT, a gallu’r NTS bresennol. Mae adran 4 isod yn esbonio’r datrysiadau amgen a ystyriwyd gan NGT trwy gyfrwng Arfarniad Opsiynau Strategol (gan gynnwys amnewid capasiti, datrysiadau cytundebol a buddsoddiad ffisegol yn yr NTS/atgyfnerthu’r NTS).
- 3.31 Dangosodd dadansoddiad o lifoedd nwy o amgylch yr NTS y gellid ymdopi â’r nwy ychwanegol sy’n dod o Derfynell South Hook mewn rhai amodau llif yn unig. Byddai’r llif nwy yn cael ei gyfyngu ar adegau eraill o ganlyniad i gyfyngiadau ar seilwaith presennol yr NTS, yn bennaf rhwng Tirley (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon), a ger gorsaf gywasgydd Churchover (Swydd Warwig), ond hefyd ar biblinell bresennol yn ne Cymru (Piblinell Fwydo 28 Felindre i Aberllynfi a Felindre i Gil-ffriw).
- 3.32 Dangosir gallu presennol yr NTS ar y siartiau isod fel llinell oren. Mae dotiau glas ar y siartiau’n ddiwrnodau rhagolwg o ‘Senarios Ynni yn y Dyfodol’ (FES) y Grid Cenedlaethol, gyda chapasiti ychwanegol wedi’i ryddhau i SHLNG. (Mae FES yn cael eu cynhyrchu gan Weithredwr System Drydan (ESO) y Grid Cenedlaethol ac maen nhw’n amlinellu ystod o lwybrau gwahanol, credadwy ar gyfer dyfodol ynni rhwng nawr a 2050, gan edrych ar ffyrdd o ddatgarboneiddio’r system ynni wrth i ni ymdrechu tuag at darged 2050³.) Lle mae dotiau glas uwchben y llinell oren, mae’r llifoedd a ragfynegir yn fwy na gallu’r NTS. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai angen i’r Gweithredwr System Nwy (GSO) gymryd camau masnachol i gydbwysu’r system, gan fynd i gostau a adwaenir fel costau cyfyngu h.y.



³ <https://www.nationalgrideso.com/future-energy/future-energy-scenarios>

taliadau iawndal a wneir i'r rhai sydd wedi sicrhau capasiti i lifo swm penodol o nwy ar yr NTS ond nad ydynt yn gallu ei lifo i gyd gan nad oes digon o allu gan yr NTS. Mae nifer y dotiau uwchben y llinell oren, a'r graddau maen nhw uwchben y llinell, yn cynrychioli risg annerbyniol o gostau cyfyngu a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr yn y pen draw trwy ddulliau rheoleiddiol.

- 3.33 Mae buddsoddiad ffisegol yn yr NTS yn symud y llinell/y gromlin ar y graff i fyny, i bob pwrpas, gan arwain at lai o ddotiau glas uwchben y llinell. Felly, bydd rhaid i'r GSO gymryd camau gweithredu masnachol ar lai o ddiwrnodau a bydd yn mynd i lai o gostau. Yn ddamcaniaethol, nid oes terfyn ar y graddau y gellir cynyddu gallu ffisegol, ond byddai'r buddsoddiad sy'n ofynnol i symud y llinell allu uwchben yr *holl* ddotiau glas yn anghymesur â'r gost a geir wrth gymryd camau gweithredu masnachol. Mae'r llinell binc ar y graff yn cynrychioli gallu ar ôl gweithredu'r Prosiect, a dyma'r cydbwysedd mwyaf darbodus ac effeithlon rhwng cost gyfalaf buddsoddiad ffisegol yn yr NTS ac amlygiad masnachol gweddilliol.
- 3.34 Fel y cyfryw, mae angen atgyfnerthu'r NTS bresennol i fodloni gofyniad PARCA SHGCL. Fel y nodwyd uchod, cynhaliwyd Arfarniad Opsiynau Strategol a oedd wedi amlygu ac ystyried ystod o ddatrysiadau posibl, ac fe'u hesbonnir yn fanylach yn adran 4 isod.

4. DATBLYGU'R PROSIECT A DEWISIADAU AMGEN

- 4.1 Er mwyn asesu'r opsiynau amgen posibl sydd ar gael i fynd i'r afael â'r diffyg yng ngallu'r NTS i dderbyn nwy o Derfynell South Hook, cynhaliodd NGT Arfarniad Opsiynau Strategol yn unol â'i ganllawiau arfarnu opsiynau – 'Y Grid Cenedlaethol – Ein Hymagwedd at Arfarnu Opsiynau 2012' (**CD E3**), sef proses gadarn a thryloyw a ddefnyddir i gymharu opsiynau/dewisiadau amgen ac asesu eu heffeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar draws ystod eang o feini prawf, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol, technegol a chost.
- 4.2 Ystyriodd NGT yr ystod ehangaf o opsiynau a allai fodloni ei ofynion gweithredol ac ymdopi â PARCA SHGCL ar gyfer mwy o gapasiti, heb ystyried barn gychwynnol ynglŷn â'u hyfywedd, a chynhyrchodd Adroddiad Opsiynau Strategol (**CD E11**) sy'n amlinellu ei ganfyddiadau.
- 4.3 Wrth baratoi Adroddiad Opsiynau Strategol, mae Polisi Rhanddeiliaid, Cymuned ac Amwynder (Polisi SCA) NGT⁴ (**CD E5**) yn amlinellu sut y bydd y cwmni'n bodloni ei ddyletswyddau i'r amgylchedd. Mae'r ymrwymadau hyn yn cynnwys:
- 4.3.1 ceisio adeiladu piblinellau, gorsafoedd cywasgydd, gosodiadau lleihau gwasgedd a gosodiadau nwy ar ben y tir eraill newydd dim ond pan na ellir uwchraddio'r seilwaith trosglwyddo presennol yn dechnegol neu'n ddarbodus i fodloni safonau diogelwch trosglwyddo;
 - 4.3.2 pan fydd angen seilwaith newydd, ceisio osgoi ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol ar gyfer eu tirwedd, bywyd gwyllt neu arwyddocâd diwylliannol; a
 - 4.3.3 lleihau effeithiau seilwaith newydd ar safleoedd eraill a werthfawrogir ar gyfer eu hamwynder.
- 4.4 Mae'r Polisi SCA hefyd yn cyfeirio at ddulliau i asesu effeithiau amgylcheddol cynigion ac amlygu mesurau lliniaru a/neu wrthbwysu priodol.
- 4.5 Mae NGT o'r farn bod opsiynau'n amgenach, yn gyffredinol:
- 4.5.1 os ydynt yn fyrrach, o gymharu â llwybrau hirach;
 - 4.5.2 os ydynt yn llai drud yn ariannol neu'n fwy buddiol o ran costau;

⁴ <https://www.nationalgrid.com/electricity-transmission/document/81026/download>

- 4.5.3 os ydynt yn osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau amgylcheddol a / neu economaidd-gymdeithasol; neu
- 4.5.4 os ydynt yn llai cymhleth yn dechnegol neu'n gwella cydnherthedd neu hyblygrwydd system.
- 4.6 Rhoddir mwy o arweiniad ar ddatblygu seilwaith nwy newydd a lywiodd yr Adroddiad Opsiynau Strategol yn y canlynol:
- 4.6.1 Cod Cynllunio Trosglwyddo (TPC) 201913 **(CD E6)**. Dogfen a gyhoeddwyd gan y Grid Cenedlaethol yw hon yn unol ag Amod Arbennig 7B Trwydded Cludwr Nwy'r Grid Cenedlaethol (y Drwydded). Mae'r TPC yn disgrifio'r fethodoleg i bennu gallu ffisegol y system y mae'n rhaid i'r Grid Cenedlaethol gydymffurfio ag ef wrth gynllunio a datblygu'r NTS.
- 4.6.2 TD/1 Argraffiad 5 Gorffennaf 2016 **(CD E4)**. Dogfen a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Peirianwyr a Rheolwyr Nwy ar gyfer 'Piblinellau dur a gosodiadau cysylltiedig ar gyfer trosglwyddo nwy gwasgedd uchel'. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r safon ar gyfer dylunio, adeiladu, archwilio, profi, gweithredu a chynnal a chadw piblinellau a seilwaith cysylltiedig ar adeg paratoi'r Adroddiad Opsiynau Strategol.
- 4.7 Ystyriodd yr Adroddiad Opsiynau Strategol b'un a allai'r capasiti y gofynnwyd amdano gael ei ddarparu trwy'r dulliau a'r mesurau canlynol, neu drwy gyfuniad ohonynt:
- 4.7.1 Dulliau Masnachol- Mae amryw ddulliau masnachol ar gael i NGT i geisio cyfyngu neu hybu'r cyflenwad a'r galw, er bod cyfyngiadau ar raddau'r rhwydwaith y mae'r dulliau hyn yn effeithiol drostynt:
- 4.7.1.1 Mae amnewid capasiti yn golygu cyflawni'r capasiti ychwanegol trwy ddisodli capasiti presennol – yn nodweddiadol, os gwyddys bod cyflenwad yn terfynu, neu y gallai gael ei derfynu, ar ryw ddyddiad yn y dyfodol. Ni ellir defnyddio amnewid capasiti yn yr achos presennol oherwydd wrth asesu'r posibilrwydd o amnewid capasiti, yr amcan yw osgoi cynnydd ychwanegol mewn risg ac ni fydd NGT yn cynnig amnewid pan fydd hyn yn wir. Mae'r brif egwyddor ar gyfer y fethodoleg hon, a ddilynwyd wrth benderfynu peidio ag amnewid capasiti i ASEP Aberdaugleddau (Terfynell South Hook), wedi'i chynnwys ym mharagraff 72 y Fethodoleg Amnewid Capasiti Mynediad (ECS)⁵ **(CD E7)**. Byddai amnewid i ASEP Aberdaugleddau (Terfynell South Hook) o unrhyw bwynt mynediad arall yn cynyddu risg cyfyngiad ar y rhwydwaith. Roedd yr Achos Angen yn Adroddiad Cam 1 PARCA yn cynnwys asesiad gallu cychwynnol a amlygodd nad yw'r NTS bresennol yn gallu ymdopi â'r capasiti mynediad y gofynnir amdano gan SHGCL ar unrhyw lefel alw. Gan fod yr NTS bresennol wedi'i "chyfyngu", mae amnewid â safle rhoddwr arall wedi cael ei ddiystyru.
- 4.7.1.2 Gallai datrysiadau cytundebol gynnwys naill ai defnyddio offer masnachol presennol i reoli diffygion mewn gallu neu ddylunio rhai newydd. Yn nodweddiadol, maen nhw ar ffurf trefniadau contract dwyochrog ar bwyntiau mynediad neu adael y gellir eu defnyddio i reoli llifoedd rhwydwaith. Er enghraifft, gallai contract 'troi i fyny' neu 'droi i lawr' gael ei negodi i naill ai gynyddu neu leihau lefel y cyflenwad neu'r galw ar bwyntiau penodol ar y rhwydwaith. Ystyriwyd datrysiadau o'r math hwn yn rhan o'r broses o lunio opsiynau strategol fel dewis amgen llawn neu rannol yn lle buddsoddi mewn asedau ychwanegol, ond ni ellir eu defnyddio yn yr achos presennol o ganlyniad i'r raddfa, y gost, yr

⁵ <https://www.nationalgrid.com/uk/gas-transmission/document/136131/download>

amlder defnydd a'r argaeledd a fyddai'n angenrheidiol i reoli'r risg i'r rhwydwaith a darparu'r capasiti y gofynnwyd amdano mewn modd darbodus ac effeithlon.

- 4.7.2 Rheoli System- Adwaenir faint o nwy sydd yn y system ar unrhyw un adeg fel 'swp y llinell' ('linepack') ac fe'i darperir trwy godi gwasgeddau uwchben gwasgeddau cyflenwad lleiaf. Mae hyn yn darparu rhywfaint o glustogi cynhenid i ymateb i lefelau amrywiol o gyflenwad a galw ar draws y system, ar yr un pryd â sicrhau bod gwasgeddau nwy yn cael eu cynnal uwchben lefelau cyflenwad lleiaf cytunedig.
- 4.7.3 Addasu'r Seilwaith Presennol trwy Uwchraddio Gwasgeddau Gweithredol- Mae'r NTS yn gweithredu ar amrywiaeth o wasgeddau rhwng tua 25barg a 94barg ac mae rhai piblinellau NTS yn gweithredu ar wasgeddau is nag y byddai eu gallu yn caniatáu. Mae modelu system wedi dangos y gellir cyflawni cyfraniad sylweddol at y capasiti ychwanegol sy'n angenrheidiol trwy weithredu rhai rhannau o biblinell ar wasgeddau uwch, y cyfeirir ato fel uwchraddio. Wrth i wasgedd gael ei gynyddu trwy uwchraddio, fe allai fod gofyniad (yn amodol ar asesiadau risg) i ddargyfeirio piblinell, cryfhau piblinell neu ychwanegu at amddiffyniad piblinell (e.e. trwy ddefnyddio slabiau concrit a osodir uwchben y piblinellau i atal trawiad) i sicrhau bod safonau diogelwch yn parhau i gael eu bodloni.
- 4.7.4 Seilwaith ychwanegol a mesurau eraill- Cyflawni capasiti ychwanegol trwy adeiladu seilwaith newydd yw'r modd olaf o fodloni'r capasiti a neilltuwyd, o bosibl. Mae amryw ddulliau'n bodoli:
- 4.7.4.1 Adeiladu piblinellau claddedig newydd (gyda seilwaith cysylltiedig fel safleoedd neu offer ar gyfer gosodiadau cywasgu ac ar ben y tir)- mae hyn yn darparu un datrysiad i symud mwy o nwy heibio i'r ardaloedd cyfyngiad naill ai i farchnadoedd newydd neu i gysylltu â mannau eraill ar yr NTS. Gallai opsiynau gynnwys piblinell dir, piblinell alltraeth a chyfuniadau o'r rhain. (Mae piblinellau tir ar ben y tir yn ddewis amgen yn lle piblinellau claddedig.)
- 4.7.4.2 Cywasgu- Lle y defnyddir offer i gynyddu gwasgedd a chyfraddau llif o fewn y seilwaith piblinell presennol.
- 4.7.4.3 Defnyddio dulliau eraill o drafndiaeth (ar y môr, ffyrdd neu reilffyrdd) i gludo LNG i leoliadau eraill- mae ar LNG angen 1/600fed o gyfaint storio nwy naturiol ar wasgedd atmosfferig safonol, felly mae'n cynrychioli cyfaint sylweddol is na nwy naturiol tra chywasgedig hyd yn oed. Mae'r cyfaint is hwn yn lleihau nifer y symudiadau sy'n ofynnol ac yn cynyddu ymarferoldeb cludo cyfeintiau mawr o LNG o gymharu â chludo nwy naturiol cywasgedig.
- 4.7.5 Storio- Cyfleuster i ddal y nwy ar y pwynt mynediad neu mewn man arall ar yr NTS i ddarparu modd o ddsbarthu llifoedd o gyfnodau o gyfyngiad i gyfnodau pan allai capasiti llif fod ar gael. Gellid storio fel LNG neu nwy naturiol cywasgedig (CNG).
- 4.8 Gan ddefnyddio cyfuniadau o'r dulliau a'r mesurau uchod, datblygwyd 'rhestr hir' gynhwysfawr o opsiynau strategol posibl (a amlygwyd cyn ystyried ffactorau fel cost gyfalaf neu ymarferoldeb ar y cam cychwynnol hwn) i ystyried dulliau amgen o gyflawni capasiti mynediad y PARCA. Adolygwyd y rhestr hir honno yn erbyn hidlwyr technegol i ddiystyru'r rhai hynny a oedd y tu allan i gwmpas gweithgareddau trwyddedig NGT, nad oeddent yn cyflawni'r llifoedd nwy neu'r rhaglen a oedd yn angenrheidiol i fodloni'r PARCA, neu a oedd wedi'u cyfyngu gan ffactorau eraill. Yna, ystyriwyd yr opsiynau a oedd yn weddiill yn erbyn hidlwr buddion. Dileodd hyn opsiynau a oedd yn hwyluso rhyddhau'r capasiti mynediad NTS y gofynnwyd amdano ond nad oeddent yn cynnig unrhyw fudd sylweddol dros opsiynau eraill, neu a allai fod wedi perfformio'n wael iawn mewn agwedd arall.

4.9 I grynhoi, roedd yr hidlwyr a gymhwyswyd wedi diystyru'r opsiynau canlynol am y rhesymau a nodir isod:

4.9.1 Gwneud Dim Byd

Diystyriwyd hyn gan nad yw'n cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol NGT o dan Ddeddf 1986 i ddatblygu a chynnal system biblinell effeithlon a darbodus ar gyfer cludo nwy (h.y. yr NTS), ac i gydymffurfio, cyn belled ag y bo hynny'n ddarbodus, ag unrhyw gais rhesymol gan gludwyr nwy i gysylltu a chludo nwy i'r system honno.

4.9.2 Defnyddio Dulliau Masnachol a Rheoli System

Diystyriwyd hyn gan nad ydynt yn darparu dull o ymateb yn gyson i gapasiti mynediad yr NTS mewn modd effeithlon neu ddarbodus.

4.9.3 Cwsmer Galw Newydd (e.e. defnyddiwr nwy newydd mawr)

Diystyriwyd hyn gan nad yw Trwydded NGT yn caniatáu iddo gynhyrchu galw ei hun ac nid yw'n ymwybodol o unrhyw ofynion defnyddiwr newydd i wrthbwysu'r gofyniad am waith.

4.9.4 Defnyddio seilwaith trydydd parti presennol

Diystyriwyd hyn oherwydd er bod gan amryw drydydd parti seilwaith piblinell (gweithredol a segur) yn yr ardal ddaearyddol berthnasol, mae arfarniad wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw ran ohono'n ddigon helaeth, nac yn cynnwys digon o gapasiti, i fodloni capasiti mynediad NTS y PARCA i wrthbwysu'r gofyniad am seilwaith newydd.

4.9.5 Cyfleusterau storio newydd (LNG a / neu nwy naturiol)

Diystyriwyd hyn oherwydd, er gwaethaf y ffaith nad yw Trwydded NGT **(CD E1)** yn caniatáu iddo ddefnyddio cyfleusterau storio yn y modd hwn, deir i'r casgliad nad yw graddfa'r cyfleusterau storio sy'n angenrheidiol i geisio defnyddio uchafbwyntiau ac isafbwyntiau yn y cyflenwad yn darparu datrysiad darbodus, effeithlon nac amgylcheddol briodol o fodloni'r gofyniad PARCA.

4.9.6 Cysylltu â marchnadoedd newydd (piblinellau alltraeth i Iwerddon a Ffrainc y tu allan i'r NTS)

Diystyriwyd hyn oherwydd bod yr opsiynau hyn yn gofyn am gryn dipyn yn fwy o seilwaith newydd ychwanegol am gost uwch a chyda mwy o effeithiau ar yr amgylchedd nag opsiynau eraill. Mae gwrthdaro cyfreithiol hefyd sy'n atal NGT rhag dal ei Drwydded i weithredu'r NTS ar yr un pryd ag y byddai angen iddo ddal trwydded Cludwr i gymryd nwy oddi ar yr NTS yn fasnachol.

4.9.7 Trosglwyddo LNG y tu hwnt i'r ardal gyfyngiad

Diystyriwyd hyn oherwydd daethpwyd i'r casgliad bod risgiau masnachol a gweddilliol annerbyniol yn gysylltiedig â dargyfeirio LNG i derfynellau eraill. Byddai piblinell LNG newydd benodol (tua 300km o Derfynell South Hook yn Aberdaugleddau) yn arwain at fwy o effeithiau ar yr amgylchedd ac am gost gyfalaf uwch o lawer. Ystyriwyd na fyddai tanceri ar y ffyrdd nac ar y rheilffyrdd yn gallu darparu sicrwydd trosglwyddo yn gyson o ystyried y posibilrwydd o darfu ar y rhwydwaith trafniadaeth.

4.9.8 Uwchraddio gyda Gwasgedd Gweithredu Uchaf (MOP) sy'n uwch na therfynau dosbarthiad offer

Diystyriwyd hyn ar ôl adolygu'r heriau sy'n gysylltiedig ag uwchraddio gyda MOP sy'n uwch na lefelau dosbarthiad offer. Mae'r opsiwn hwn yn hyfyw a rhoddodd

fwy o allu ar gyfer llif nwy o gymharu ag uwchraddio gyda MOP sy'n is na therfynau dosbarthiad offer. Fodd bynnag, nid yw'n lleihau faint o biblinell newydd a fyddai'n angenrheidiol (i fodloni capasiti mynediad yr NTS) o gymharu â MOP sy'n is na therfynau dosbarthiad offer, ac mae hefyd yn cyflwyno heriau rhaglen a gweithredol technegol (achos diogelwch) ychwanegol i'w goresgyn o gymharu â MOP sy'n is na therfynau dosbarthiad offer.

4.9.9 Cysylltu â rhannau mwy gogleddol / canolog o'r NTS

Cafodd opsiynau amrywiol i gynyddu'r llif nwy trwy atgyfnerthu rhan o'r rhwydwaith presennol gan ddefnyddio cyfuniadau o uwchraddio, cywasgu a phiblinellau newydd eu datblygu i'r cam arfarnu opsiynau.

Diystyriwyd cysylltiadau piblinell tir ac alltraeth newydd eraill ar sail yr hidlwr buddion oherwydd eu bod yn golygu bod angen: piblinellau hirach o lawer, i gynyddu capasiti; cywasgu yn ogystal â phiblinell o gymharu ag opsiynau y mae arnynt angen yr un biblinell heb gywasgu; neu'n cynnwys uwchraddio gwasgedd gyda mwy o newidiadau ychwanegol o gymharu ag opsiynau eraill tebyg a ddatblygwyd.

4.9.10 Cysylltu â rhannau mwy dwyreiniol / de-ddwyreiniol o'r NTS

Cafodd dau opsiwn i gynyddu capasiti trwy gysylltu â rhannau mwy dwyreiniol / de-ddwyreiniol o'r NTS eu datblygu i'r cam arfarnu opsiynau, ond diystyriwyd opsiwn a oedd yn caniatáu ar gyfer osgoi rhan 2km trwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) y Cotswolds yn gyfan gwbl oherwydd ei fod gryn dipyn yn hirach (o leiaf 50km yn hirach) gyda mwy o effeithiau ar yr amgylchedd a mwy o gostau.

4.9.11 Cysylltu â rhannau de-orllewinol o'r NTS

Ystyriwyd ystod o opsiynau yn cynnwys amryw fannau dechrau a chyfuniadau o atgyfnerthu'r NTS bresennol, piblinell dir ac alltraeth newydd a'r posibilrwydd o ddefnyddio croesiadau presennol Afon Hafren i gynyddu capasiti trwy osgoi'r ardal gyfyngiad i ran dde-orllewinol yr NTS. O gymharu ag opsiynau eraill, perfformiodd bob un yn waeth ar amrywiaeth o seiliau (gan gynnwys yr angen am biblinellau hirach, costau uwch, ffactorau technegol ac effeithiau amgylcheddol) ac fe'u diystyriwyd.

4.9.12 Opsiynau eraill

Diystyriwyd piblinellau tir oherwydd eu bod yn cyflwyno amrywiaeth o heriau o gymharu â phiblinellau claddedig (e.e. cyfyngu ar fynediad, atal adfer ac aildefnyddio tir, yn ogystal â risgiau diogelwch) sy'n drech nag unrhyw ostyngiad bach mewn costau adeiladu.

Ystyriwyd osgoi ardal gyfyngiad Wormington yn lleol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae'r patrymau galw a chyflenwad yn golygu bod nwy yn llifo i'r cyfeiriad arall mewn gwirionedd yn y ddwy ran o bibell sy'n gwneud yr opsiwn yn aneffeithiol.

4.10 Roedd y rhestr fer o opsiynau strategol yn cynnwys opsiynau ar y tir, gan gynnwys y cyfuniadau canlynol a grynhoir yn Nhabl 1 isod:

4.10.1 Uwchraddio gwasgedd h.y. cynyddu Pwysedd Gweithredu Uchaf (MOP) piblinellau NTS presennol;

4.10.2 Atgyfnerthu'r NTS e.e. adeiladu piblinellau newydd (mewn rhai achosion, yn ychwanegol at gapasiti presennol yr NTS) a / neu orsafoedd cywasgydd ychwanegol;

4.10.3 Cysylltiadau piblinell newydd â rhannau eraill o'r NTS.

Tabl 1 – Crynodeb o fanylion yr opsiynau strategol a ddatblygwyd i'r cam arfarnu opsiynau.

Opisiwn Cost	Disgrifiad o'r opsiwn	Cost (M£)	Budd (M£)	Cost/Budd (1:1)	Cost/Budd (1:1)	Cost/Budd (1:1)	Cost/Budd (1:1)	Cost/Budd (1:1)	Cost/Budd (1:1)
F6.6	Yn dilyn yr arfarniad opsiynau, gan ystyried yr holl ffactorau, prisiwyd rhestr fer o opsiynau o safbwynt buddsoddi mewn asedau. Y cynnig strategol a ffafriwyd oedd opsiwn F6.6 (yn Nhabl 1 uchod) a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol, ac fe'i cefnogwyd gan Ddadansoddiad Cost a Budd (CBA) (CD E8) a ystyriodd gostau buddsoddi, costau cyfyngiadau a chontractau, a chostau gweithredol:	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.1	Uwchraddio gwasgedd (gyda gwasgedd gweithredu uchaf sy'n is na'r terfyn dosbarthiad offer) y biblinell Fwydo 28 bresennol rhwng Aberdaugleddau (Sir Benfro) ac Aberllynfi (Powys);	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.2	9km o biblinell newydd rhwng Wormington a Honeybourne a 2km o biblinell newydd rhwng Cywasgydd Churchover a safle Amlgyswllt Churchover; a	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.3	Gwaith cysylltiedig mewn sawl safle Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) presennol i hwyluso uwchraddio gwasgedd, cysylltu piblinellau newydd a chywasgu effeithiol mewn gorsafoedd presennol.	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.4	Mae'n gofyn am y swm lleiaf o seilwaith newydd ac felly'n lleihau effaith y Prosiect ar gymunedau a'r amgylchedd i'r eithaf;	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.5	Mae ganddo'r gost gyfalaf isaf gyda'r budd mwyaf i ddefnyddwyr ac mae'n cynrychioli'r datrysiad mwyaf darbodus ac effeithlon i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig;	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.6	Mae'n cynyddu i ba raddau y mae seilwaith presennol yr NTS yn cael ei ddefnyddio, ei ymestyn a'i addasu i'r eithaf, ac yn lleihau gofynion seilwaith newydd i'r eithaf. Mae dadansoddiad hefyd yn dangos bod yr opsiwn hwn yn perfformio'n dda o ran cynaliadwyedd a bod ganddo'r gyllideb garbon isaf o'r opsiynau strategol;	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1
F6.6.7	Mae'n gofyn am biblinell newydd fyrrach o lawer; ac	478	602	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1	1:1

4.11 Yn dilyn yr arfarniad opsiynau, gan ystyried yr holl ffactorau, prisiwyd rhestr fer o opsiynau o safbwynt buddsoddi mewn asedau. Y cynnig strategol a ffafriwyd oedd opsiwn F6.6 (yn Nhabl 1 uchod) a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol, ac fe'i cefnogwyd gan Ddadansoddiad Cost a Budd (CBA) (CD E8) a ystyriodd gostau buddsoddi, costau cyfyngiadau a chontractau, a chostau gweithredol:

- 4.11.1 Uwchraddio gwasgedd (gyda gwasgedd gweithredu uchaf sy'n is na'r terfyn dosbarthiad offer) y biblinell Fwydo 28 bresennol rhwng Aberdaugleddau (Sir Benfro) ac Aberllynfi (Powys);
- 4.11.2 9km o biblinell newydd rhwng Wormington a Honeybourne a 2km o biblinell newydd rhwng Cywasgydd Churchover a safle Amlgyswllt Churchover; a
- 4.11.3 Gwaith cysylltiedig mewn sawl safle Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) presennol i hwyluso uwchraddio gwasgedd, cysylltu piblinellau newydd a chywasgu effeithiol mewn gorsafoedd presennol.

4.12 Dewiswyd y cynnig strategol a ffefirir am y rhesymau canlynol:

- 4.12.1 Mae'n gofyn am y swm lleiaf o seilwaith newydd ac felly'n lleihau effaith y Prosiect ar gymunedau a'r amgylchedd i'r eithaf;
- 4.12.2 Mae ganddo'r gost gyfalaf isaf gyda'r budd mwyaf i ddefnyddwyr ac mae'n cynrychioli'r datrysiad mwyaf darbodus ac effeithlon i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig;
- 4.12.3 Mae'n cynyddu i ba raddau y mae seilwaith presennol yr NTS yn cael ei ddefnyddio, ei ymestyn a'i addasu i'r eithaf, ac yn lleihau gofynion seilwaith newydd i'r eithaf. Mae dadansoddiad hefyd yn dangos bod yr opsiwn hwn yn perfformio'n dda o ran cynaliadwyedd a bod ganddo'r gyllideb garbon isaf o'r opsiynau strategol;
- 4.12.4 Mae'n gofyn am biblinell newydd fyrrach o lawer; ac

- 4.12.5 O'r holl opsiynau yn yr arfarniad opsiynau, mae'n perfformio orau yn y Dadansoddiad Cost a Budd.
- 4.13 Er ei fod yn cynnwys uwchraddio a'i fod yn fwy cymhleth yn dechnegol ac yn gwyro oddi wrth arfer presennol, dangosodd asesiadau cychwynnol gan NGT y byddai'r uwchraddio'n parhau i fod yn ddiogel ac y gellid datrys unrhyw heriau sy'n weddill a chyflawni'r opsiwn yn llwyddiannus. Roedd opsiynau eraill eu hunain yn fwy cymhleth yn nhermau eraill. Er enghraifft, roedd rhai'n cyflwyno heriau adeiladu ychwanegol o ganlyniad i groesiadau seilwaith trafndiaeth ychwanegol ac aliniad ag ymyl trefol mwy gorlawn. Cynhaliwyd ymarfer ôl-wirio o'r cynnig strategol a ffefrir a nodwyd yn yr Adroddiad Opsiynau Strategol yn gynnar yn 2021, a gadarnhaodd mai hwn oedd yr opsiwn a ffefrir o hyd yn dilyn rhyddhau data 2020 FES (roedd y dadansoddiad yn yr Adroddiad Opsiynau Strategol wedi'i seilio ar FES 2019). Yn gyfochrog, defnyddiwyd sawl adolygiad sensitifrwydd i optimeiddio cyfansoddiad a chwmpas manwl y cynnig strategol a ffefrir. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at fireinio'r cynnig a ffefrir.
- 4.14 I grynhoi, roedd y mireiniad hwn yn cynnwys lleihau graddau'r uwchraddio gwasgedd rhwng Aberdaugleddau a Felindre; newidiadau manyleb i rywfaint o'r biblinell newydd sy'n ofynnol (gan leihau ei diamedr o 1200mm i 900mm); a rhai dyluniadau gwell eraill sy'n lleihau graddau a chwmpas rhywfaint o waith trwy, er enghraifft, osgoi'r angen am estyniadau i safleoedd trwy ddatblygu datrysiad wedi'i seilio ar addasiadau o fewn tir gweithredol presennol.
- 4.15 Yn arbennig, mae osgoi gorsaf gywasgydd Churchover yn rhannol yn hwyluso llifoedd nwy effeithlon heb fod angen addasu pibwaith o fewn yr orsaf gywasgydd ei hun, nac addasu'r unedau cywasgu.
- 4.16 Mae lleihau diamedr y biblinell yn symleiddio'r cysylltiadau ar bob pen iddi.
- 4.17 Mae lleihau graddau'r uwchraddio hefyd:
- 4.17.1 Yn lliniaru'r angen i'r terfynellau LNG wneud addasiadau i hwyluso rhyddhau ar y MOP wedi'i uwchraddio;
- 4.17.2 Yn dileu'r gofyniad am orsaf lleihau gwasgedd yn safle cymryd olew Blackbridge (i leihau gwasgedd y cyflenwad i orsaf bŵer Sir Benfro i'r un gwasgedd ag ar hyn o bryd); ac
- 4.17.3 Yn dileu'r angen am waith peirianeg i leihau'r risg o dorri Pellter Agosrwydd i Adeiladu (BPD) newydd (lle mae adeiladau presennol o fewn y BPD pan ailgyfrifir ar y gwasgedd uwch)
- 4.18 Ar ôl i'r cynnig strategol a ffefrir gael ei amlygu, cynhaliwyd astudiaethau technegol ychwanegol gan gynnwys Dyluniad Peirianeg Cychwynnol (FEED) i gefnogi Dadansoddiad Cost a Budd NGT. Yn fwy penodol, roedd hyn yn cynnwys proses i amlygu llwybrau ar gyfer y ddwy ran newydd o biblinell. Roedd y broses yn cynnwys y camau canlynol:
- 4.18.1 Amlygu Ardaloedd Chwilio am Lwybr
- 4.18.2 Amlygu coridorau llwybr
- 4.18.3 Gwerthuso'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phob coridor llwybr i lywio'r broses o ddewis y coridorau llwybrau a ffefrir
- 4.18.4 Amlygu coridor llwybr a ffefrir
- 4.18.5 Gwerthuso cyfyngiadau llwybro piblinell sy'n gysylltiedig â'r coridorau llwybrau a ffefrir
- 4.18.6 Amlygu llwybr ar gyfer y biblinell
- 4.19 Ystyriodd y broses y canlynol:


- 4.19.1 ystyriaethau amgylcheddol (bioamrywiaeth, cyfyngiadau'r dirwedd a chyfyngiadau hanesyddol, ac agweddau ffisegol fel llifogydd);
- 4.19.2 ystyriaethau economaidd-gymdeithasol (e.e. effeithiau posibl ar eiddo presennol);
- 4.19.3 ystyriaethau technegol (cymhlethdod, materion cyflawni ac adeiladu, cynaliadwyedd a gallu'r rhwydwaith);
- 4.19.4 cost gyfalaf a dadansoddiad cost a budd (pwysu costau cyfalaf a chostau gydol oes yn erbyn costau llai o gyfyngiad ar y system); ac
- 4.19.5 ystyriaethau eraill, gan gynnwys rhaglen.
- 4.20 Diffiniwyd Ardaloedd Chwilio am Lwybr ar gyfer y ddwy ran o biblinell yn gyntaf:
- 4.20.1 Ardal Chwilio am Lwybr A – rhwng Safle Cywasgydd Wormington a Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) Honeybourne (roedd yr ardal chwilio am lwybr hon yn cynnwys opsiwn i gysylltu i'r dwyrain o AGI Honeybourne, ond diystyriwyd hyn yn rhan o'r broses arfarnu opsiynau);
- 4.20.2 Ardal Chwilio am Lwybr B – rhwng Cywasgydd Churchover a Safle Amlgyswllt Churchover
- 4.21 Eithriodd yr Ardaloedd Chwilio am Lwybr ardaloedd lle yr ystyriwyd ei bod yn amhriodol neu'n heriol iawn adeiladu piblinell nwy newydd yn seiliedig ar feini prawf diffiniedig, gan gynnwys osgoi aneddiadau ac ardaloedd â llethrau serth helaeth oherwydd byddai heriau cysylltiedig yn ymwneud ag adeiladu. Adolygwyd yr Ardaloedd Chwilio am Lwybr hefyd yng nghyd-destun asedau presennol y Grid Cenedlaethol, pwyntiau cysylltu a chyfyngiadau amgylcheddol.
- 4.22 Amlygwyd coridorau llwybrau o fewn pob Ardal Chwilio am Lwybr yn seiliedig ar set o egwyddorion arweiniol a oedd wedi'u seilio ar bolisi cenedlaethol, deddfwriaeth, canllawiau'r diwydiant, data cyfyngiadau a thybiaethau a pharamedrau diffiniedig. Amlygwyd wyth coridor llwybr i'w harfarnu'n fanwl, ac roeddent yn cynnwys:
- 4.22.1 Chwe choridor o fewn Ardal Chwilio am Lwybr A
- 4.22.2 Dau goridor o fewn Ardal Chwilio am Lwybr B
- 4.23 Cynhaliwyd yr arfarniad o opsiynau, a ystyriodd y pedwar pwnc canlynol:
- Yr amgylchedd
 - Materion economaidd-gymdeithasol
 - Materion technegol
 - Costau
- 4.24 Yr opsiwn a ffefirir a ddaeth i'r amlwg yn Ardal Chwilio am Lwybr A oedd coridor llwybr A3, am y rhesymau canlynol:
- Byddai'n cydymffurfio â safonau diogelwch;
 - Ychydig iawn o gyfyngiadau amgylcheddol statudol neu economaidd-gymdeithasol sydd ganddo;
 - Mae coridor llwybr A3 wedi'i leoli tua 700m i'r gogledd-ddwyrain o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) y Cotswolds ar ei bwynt agosaf, gerllaw Safle Cywasgydd presennol Wormington. Byddai unrhyw effeithiau ar leoliad yr

AHNE yn rhai dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu a gellid eu lleihau trwy lwybro a lleoli cyfadeiladau adeiladu yn ofalus. Byddai coridorau llwybrau A2, A4 ac A6 i gyd yn uniongyrchol gyfagos i'r AHNE, ac er y gallai mesurau lliniaru tebyg gael eu cymhwyso, byddai'r effeithiau ychydig yn fwy ar gyfer y coridorau hyn sy'n agosach i'r AHNE, felly ffafriwyd A3 drostynt;

- Coridor llwybr A3 yw'r opsiwn â'r gost gyfalaf isaf. Mae 4% yn llai na'r coridor llwybr ail rataf (A5). At ei gilydd, coridor llwybr A3 yw'r datrysiad mwyaf darbodus;
- Mae'n ddatrysiad llai cymhleth yn dechnegol gan fod angen llai o groesiadau afonydd i gyd ar gyfer coridor llwybr A3;
- Mae'n cynnig y potensial i wella gwydnwch / hyblygrwydd y system yn y dyfodol oherwydd ei fod yn cynnwys AGI Evesham o fewn y coridor, gan roi cyfle i ad-drefnu'r rhwydwaith yn y dyfodol i weddu i gyflenwad neu alw sy'n newid.

4.25 Mae Mewnosodiad 1 yn cyflwyno'r holl goridorau llwybrau a ystyriwyd o fewn Ardal Chwilio am Lwybr A, a dangosir y coridor llwybr A3 a ffefrir gyda ffin ag ymyl coch.

Mewnosodiad 1: Coridor Llwybr a Ffefrir A3 sy'n Dod i'r Amlwg



4.26 Yr opsiwn a ffefrir a ddaeth i'r amlwg o fewn Ardal Chwilio am Lwybr B oedd coridor llwybr B2 (gweler Mewnosodiad 2), am y rhesymau canlynol:


- Byddai'n cydymffurfio â safonau diogelwch;
- Ychydig iawn o gyfyngiadau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sydd ganddo;
- Mae'n ddatrysiad llai cymhleth yn dechnegol ac yn gwella hyblygrwydd y system. Mae potensial i gysylltu â'r biblinell fwydo bresennol fwyaf deheuol (Piblinell

Fwydo 23) wrth y cywasgydd T a fyddai'n darparu buddiannau effeithlonrwydd i'r rhwydwaith o dan bob senario llif a byddai'n fwy cadarn nag opsiynau eraill;

- Mae coridorau llwybrau B1 a B2 o hyd tebyg, felly byddai'r costau cyfalaf yn debyg. Fodd bynnag, gellid lleihau'r gost gyfalaf gyffredinol gyda choridor llwybr B2 trwy ddefnyddio ymarferoldeb y safle T;
- Mae coridor safle B2 yn osgoi materion adeiladwyedd sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwlypach B1;
- Mae'r pwyntiau cysylltu a ffeirir yn Safle Amlgyswllt Churchover yn fwy ymarferol o fewn coridor llwybr B2;
- Tua diwedd yr arfarniad, amlygodd NGT gynlluniau hefyd ar gyfer safle cynhyrchu solar (y rhoddwyd caniatâd iddo bellach) sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol â choridor B1.

4.27 Mae Mewnosodiad 2 yn cyflwyno'r ddau goridor llwybr a ystyriwyd o fewn Ardal Chwilio am Lwybr B, a dangosir y coridor llwybr B2 a ffeirir gyda ffin ag ymyl coch.

Mewnosodiad 2: Coridor Llwybr a Ffeirir B2 sy'n Dod i'r Amlwg



4.28 Yn dilyn dadansoddiad pellach o gyfyngiadau ac ymgynghoriad, cadarnhawyd coridor llwybr A3 fel y llwybr mwyaf priodol ar gyfer piblinell Wormington i Honeybourne, a chadarnhawyd coridor llwybr B2 fel y llwybr mwyaf priodol ar gyfer piblinell Churchover.

4.29 Coridor llwybr A3 yw'r coridor byrraf a mwyaf uniongyrchol a darbodus. Dyma'r llwybr sydd â'r cyfyngiadau amgylcheddol lleiaf hefyd. Mae'n ddatrysiad llai cymhleth yn dechnegol gan fod angen llai o groesiadau afonydd a ffyrdd. Mae'n bosibl y gellid ei addasu hefyd i wella cydnerthedd / hyblygrwydd y system gan ei fod yn mynd heibio'n agos i AGI Evesham, gan roi cyfle i ad-drefnu'r rhwydwaith yn y dyfodol i weddu i gyflenwad neu alw sy'n newid.

4.30 Mae coridor B2 yn ddatrysiad llai cymhleth yn dechnegol, mae ganddo lai o risgiau adeiladu na choridor llwybr B1 (sydd ag amodau tir gwlypach) ac mae potensial i gysylltu â'r piblinell

fwydo bresennol fwyaf deheuol (Piblinell Fwydo 23) wrth y cywasgydd T a fyddai'n darparu buddiannau effeithlonrwydd i'r rhwydwaith o dan bob senario llif a byddai'n fwy cadarn.

- 4.31 At ei gilydd, mae'r cynnig strategol a ffeirir, fel y'i mireiniwyd, yn gofyn am y seilwaith newydd lleiaf ac felly'n lleihau effaith y Prosiect ar gymunedau a'r amgylchedd i'r eithaf; ac mae ganddo'r gost gyfalaf isaf gyda'r budd mwyaf i ddefnyddwyr. Felly, mae'n cynrychioli'r datrysiad mwyaf darbodus ac effeithlon i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.

5. **DISGRIFIAD O'R PROSIECT**

- 5.1 Mae NGT wedi ymgynghori ar y cynnig strategol a ffeirir gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff statudol perthnasol, y cwsmer PARCA SHGCL, cynrychiolwyr gwleidyddol, tîrfeiddianwyr y gallai'r cynnig effeithio arnynt a'r cyhoedd, trwy amrywiaeth o ddulliau. Bydd adborth o ymgysylltu yn parhau wrth i waith dylunio manwl aeddfedu ac fe'i hystyriwyd cyn cyflwyniadau cynllunio. Mae hyn yn cefnogi caffael hawliau angenrheidiol i adeiladu a gweithredu'r seilwaith trwy gytundebau gwirfoddol neu brynu gorfodol pan fydd angen.

- 5.2 Rhoddir crynodeb o'r prosiect ym mharagraff 1.2 uchod. Mae'r adran 5 hon yn rhoi mwy o fanylion am:

5.2.1 y seilwaith a fydd yn cael ei osod; a

5.2.2 faint o dir y bydd angen hawliau newydd drosto i hwyluso adeiladu a gweithredu'r Prosiect a'i gynnal a'i gadw yn y dyfodol.

- 5.3 Disgrifir rhannau cyfansawdd y Prosiect isod:


Adeiladu Piblinell (a ddangosir mewn lliw glas golau ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.4 Bydd dwy ran o biblinell nwy danddaear yn cael eu hadeiladu- rhan newydd 9km o hyd, 900mm o ddiamedr rhwng Wormington (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon); a rhan newydd 2km o hyd, 900mm o ddiamedr o biblinell nwy yn Churchover (Swydd Warwick).

- 5.5 Bydd y biblinell yn cael ei hadeiladu gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau gosod ffosiog ar draws tir agored, a dulliau di-ffos, fel Drilio Cyfeiriadol Llorweddol, i groesi rhwystrau lle y bo'n briodol, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ffyrdd, cyfleustodau claddedig a chyrsgiau dŵr.

- 5.6 Bydd angen caffael pecyn o "Hawliau Adeiladu Piblinell" dros y 'coridor' o dir a ddangosir mewn lliw glas golau ar Fapiau'r Gorchymyn er mwyn i'r gwaith adeiladu allu digwydd. Mae'r coridor adeiladu 37m o led yn nodweddiadol, ond bydd angen lled o 52m pan fydd angen croesi ffyrdd, cyfleustodau neu gyrsgiau dŵr.

- 5.7 Mae'r diagram isod yn gynrychioliad trawstoriadol o'r coridor gweithio nodweddiadol ar gyfer gosodiad ffosiog:




5.8 Mae'r coridor gweithio'n cynnwys y rhannau canlynol:


- Ffos y bibell: dyma'r cloddiad y bydd y bibell 900mm yn cael ei gosod ynddo.
- Ardaloedd gweithio: dyma'r ardaloedd ar bob ochr i ffos y bibell sy'n angenrheidiol i allu symud y personél, yr offer a'r peiriannau a ddefnyddir i wneud y gweithgareddau adeiladu sy'n ofynnol yn ddiogel ac yn effeithlon. Bydd yr ardaloedd hyn yn cynnwys lle i weldio, archwilio a gorchuddio'r biblinell cyn iddi gael ei gostwng i mewn i'r ffos.
- Bwnd uwchbridd: bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio i storio'r uwchbridd.
- Byndiau isbridd: bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio i storio'r pridd sydd wedi cael ei gloddio i greu'r ffos. Bydd yr isbridd a dynnir o'r ffos yn cael ei bentyrru gerllaw'r ardal o ble y'i tynnwyd i sicrhau bod y pridd yn cael ei ddychwelyd i'r un ardaloedd yn ystod gwaith adfer. Bydd yr isbridd yn cael ei storio i ffwrdd oddi wrth yr uwchbridd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, er mwyn atal cymysgu mathau o bridd.
- Trac rhedeg: bydd y coridor gweithio'n cynnwys trac rhedeg ar gyfer traffig adeiladu ar hyd llwybr y biblinell. Yn nodweddiadol, bydd y trac rhedeg tua 4m o led, gan gynyddu i hyd at [10m] lle y ceir mannau mynd heibio. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau mynediad os bydd argyfwng.
- Ffens: i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) **(CD A11)**, bydd ffens yn cael ei gosod o amgylch yr ardal weithio i ddiffinio'r ardal ble y bydd y gweithgareddau adeiladu'n cael eu cynnal. Bydd y math o ffens yn cael ei ddewis ar sail y diben sy'n ofynnol (e.e. i atal stoc, i atal ceffylau, i bennu ffiniau ar gyfer ardaloedd cerbydau a cherddwyr/ardaloedd gweithio pan fydd angen, i ddarparu diogelwch mewn ardaloedd risg uchel).

5.9 Mae nifer o bwyntiau ar hyd y biblinell lle mae angen i'r bibell 'groesi' rhwystrau (h.y. cael ei gosod oddi tanynt), fel ffyrdd, rhai mathau o gyfleustodau a chysiau dŵr. Mae angen i'r 'coridor' gweithio/ardal weithio fod yn fwy llydan yn y mannau hyn i ganiatáu lle i sefydlu a defnyddio'r offer gosod arbenigol. Mae NGT wedi ceisio amlygu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y rhwystrau ar hyd y biblinell y bydd angen eu 'croesi'. Fodd bynnag, mae'n bosibl yr amlygir y bydd angen gosodiadau di-ffos ychwanegol yn ystod y gwaith adeiladu.

5.10 Mae'r diagram isod yn gynrychioliad trawstoriadol o'r offer a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith gosod di-ffos. The diagram below is a cross-sectional representation of an example of the equipment that may be used for trenchless installation:



- 5.11 Mae hyn yn darlunio techneg ficrodwnnel a allai gael ei defnyddio wrth groesfan ffordd yr A44. Gosodir y bibell mewn twnnel diamedr bach rhwng siaffftiau lansio a derbyn.
- 5.12 Bydd angen caffael pecyn o "Hawliau Piblinell" dros goridor culach 24.4m o dir lle mae'r biblinell ac offer cysylltiedig yn cael eu lleoli er mwyn gallu ei gweithredu, ei hatgyweirio, ei chynnal a'i chadw, a'i diogelu rhag ymyrraeth. (Gweler adran 7 isod). Bydd y coridor 24.4m hwn yn 12.2m o bob ochr i linell ganol y biblinell, o fewn y tir a ddangosir gan groeslinellau coch ar Fapiau'r Gorchymyn. Bydd y coridor tir y bydd angen hawliau drosto ar gyfer gweithredu, atgyweirio, cynnal a chadw a diogelu'r biblinell yn gulach na'r coridor tir y mae angen hawliau adeiladu drosto oherwydd ei bod yn annhebygol iawn y byddai angen ailosod y biblinell yn ei chyfanrwydd, a fyddai'n golygu bod angen ardal weithio o 37m/52m o led. Gwneir iawn am y gostyngiad o ran lled y tir y bydd angen caffael hawliau drosto ar gyfer gweithredu, atgyweirio, cynnal a chadw a diogelu, o gymharu â lled y tir y bydd angen caffael hawliau drosto ar gyfer adeiladu, trwy ddefnyddio tir ymhellach i fyny neu i lawr yr ardal Hawliau Piblinell i storio pridd a gloddiwyd ac offer pe byddai angen amnewid rhan o'r biblinell. Yr unig eithriadau i hyn yw efallai y bydd angen caffael hawliau i gadw, atgyweirio, cynnal a chadw a diogelu systemau draenio a osodwyd cyn y gwaith adeiladu (a ddisgrifir yn fanylach ym mharagraff 5.26 isod) unrhyw le o fewn y tir a ddangosir gan groeslinellau coch ar Fapiau'r Gorchymyn, ac i gael mynediad i'r biblinell o'r briffordd gyhoeddus agosaf.
- 5.13 Dangosir yr ardal o dir y bwriedir caffael yr Hawliau Adeiladu Piblinell drosti wedi'i lliwio'n las golau ar Fapiau'r Gorchymyn, a dangosir yr ardal y bwriedir caffael yr Hawliau Piblinell drosti gan groeslinellau coch. Gan na fydd union leoliad y biblinell yn hysbys tan ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, mae'r ddwy ardal o dir yn orgyffwrdd. Dangosir hyn ar Fapiau'r Gorchymyn **(CD C2)** trwy orgyffwrdd croeslinellau coch dros liw glas golau.
- 5.14 Mae nifer o achosion eraill lle y cynigir caffael dau becyn gwahanol o hawliau tir dros yr un llain o fewn Tir y Gorchymyn, a dangosir hyn ar Fapiau'r Gorchymyn **(CD C2)** trwy groeslinellu un lliw dros liw arall ar y llain berthnasol. Er enghraifft, bydd angen caffael 'Hawliau Lagŵn' (gweler paragraff 5.15 isod) dros leiniau 122 a 129, ynghyd â lleiniau eraill, i allu creu lagŵn a'i ddefnyddio tra bod y biblinell yn cael ei hadeiladu. Ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, bydd y lagŵn yn cael ei dileu a bydd angen caffael Hawliau Mynediad dros leiniau 122 a 129 i allu cael mynediad wedi hynny. Mae'r rhan berthnasol o'r [allwedd/esboniad] isod yn dangos hyn:



Lagwnau (a ddangosir wedi'u lliwio'n borffor ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.15 Bydd angen dŵr i brofi gwasgedd y biblinellau yn rhan o'r broses gomisiynu. Er mwyn sicrhau y bydd digon o ddŵr ar gael at y diben hwnnw ar yr adeg iawn o'r flwyddyn (yn hwyr yn yr haf 2024), bydd NGT yn creu lagŵn a fydd yn ei alluogi i dynnu dŵr o Afon Swift a Nant Badsey yn ystod cyfnodau o lif uwch (sy'n fwy tebygol yn y gaeaf a'r gwanwyn) a'i storio hyd nes y bydd ei angen. Bydd hyn yn sicrhau y cydymffurfir â rheolau amgylcheddol yn ymwneud â thynnu dŵr.
- 5.16 Bydd angen caffael pecyn o "Hawliau Lagŵn" dros yr ardal o dir sy'n ofynnol i greu'r lagŵn (a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ar Fapiau'r Gorchymyn) **(CD C2)**, fel yr esbonnir yn adran 7 y Datganiad hwn.

Addasiadau

- 5.17 Mae'r gwaith adeiladu sy'n ofynnol ar gyfer uwchraddio'r biblinell bresennol fel a ganlyn:
- 5.17.1 Uwchraddio neu amnewid offer sy'n methu asesiadau uwchraddio. Yng Nghil-ffriw, mae hyn yn cynnwys y modiwl lleihau gwasgedd sy'n lleihau gwasgedd nwy proses fel y gellir ei ddefnyddio fel nwy tanwydd ar gyfer y boeleri ar y safle. Mae Cil-ffriw yn Orsaf Lleihau Gwasgedd sy'n rheoleiddio'r llif ac yn lleihau gwasgedd nwy ym Mhiblinell Fwydo 28 cyn iddo lifo i Biblinell Fwydo 2.
- 5.17.2 Ychwanegu offer i reoli'r ffiniau gwasgedd a gyflwynir. Yn Aberllynfi, mae hyn yn cynnwys ffurfweddu'r falfiau presennol i fod yn falfiau Diffodd mewn Argyfwng a fydd yn cau pan fydd y gwasgedd uwch yn fwy na'r gwasgedd is a ganiateir. Mae Aberllynfi yn safle trap Medrydd Mewnol Piblinell (PIG). Mae PIGs yn hwyluso casglu data iechyd am biblinellau ac mae safleoedd trap PIG yn hwyluso'r broses o'u lansio a'u hadfer, a'u lleoliadau dechrau, diwedd a chanolraddol ar hyd piblinellau.
- 5.17.3 Bydd angen addasiadau tebyg yn safle Amlgyswllt Felindre, Alltwern a Llanwrda, ond nid oes gofynion tir wedi'u hamlygu ar gyfer yr addasiadau hyn. Defnyddir tir y mae NGT yn berchen arno ar gyfer addasiadau yng ngorsaf Cywasgydd Felindre a Tirley.
- 5.18 Y gwaith adeiladu sy'n ofynnol mewn gorsafoedd cywasgydd yw ail-droi. Newidiadau i'r troellau o fewn cywasgyddion presennol yw ail-droi i ganiatáu iddynt weithredu'n effeithlon mewn gwahanol amodau llif a gwasgedd.
- 5.19 Y gwaith adeiladu sy'n ofynnol yn Tirley yw amnewid Falf Dim Dychwelyd â falf rheoli llif, i ganiatáu ar gyfer defnyddio dargyfeiriad llif gwrthdro presennol fel ffrwd llif uchel sy'n llifo o'r Gorllewin i'r Dwyrain.
- 5.20 Yn gyffredinol, bydd y gwaith addasu hwn yn cael ei wneud ar dir y mae NGT yn berchen arno, ond mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o dir trydydd parti yn ystod y broses o gynnal y gwaith (gweler yr adran isod ynglŷn â chyfaddiladau adeiladu).

Cyfaddiladau Adeiladu (a ddangosir wedi'u lliwio'n wyrdd ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.21 Mae 8 cyfaddilad adeiladu i gyd:
- 5.21.1 Un ar bob pen o'r ddwy ran newydd o biblinell= 4
- 5.21.2 Un ar bob pen o groesfan newydd yr A44, lle mae gwaith dylunio peirianeg cychwynnol wedi amlygu bod angen microdwnnel= 2
- 5.21.3 Un ar bob pen o Gyfleuster Trap PIG Aberllynfi a Gorsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw= 2

- 5.22 Bydd y cyfateilad adeiladu yn Aberllynfi yn hwyluso addasiadau i gyfleuster Trap PIG Aberllynfi. Defnyddir y safle hwn i lansio a derbyn offer Medrydd Mewnol Piblinell (PIG) sy'n archwilio cyflwr y piblinellau sy'n ffurfio'r NTS. Mae wedi'i leoli ar ran o bibell y bydd ei gwasgedd yn cael ei uwchraddio yn rhan o'r Prosiect. Bydd unrhyw offer nad yw'n addas ac yn ddiogel i'w weithredu ar y gwasgedd wedi'i uwchraddio yn cael ei addasu neu ei amnewid, a bydd rhywfaint o offer ychwanegol yn cael ei osod i reoli'r trothwy gwasgedd a gyflwynir.
- 5.23 Bydd y cyfateilad adeiladu yng Nghil-ffriw yn hwyluso addasiadau i Orsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw er mwyn sicrhau y gall leihau'r gwasgedd nwy wedi'i uwchraddio yn effeithiol i wasgedd gweithredol presennol Piblinell Fwydo 2.
- 5.24 Bydd angen caffael pecyn o "Hawliau Cyfateilad Adeiladu" dros yr ardaloedd hyn o dir (a ddangosir wedi'u lliwio'n Wyrdd ar Fapiau'r Gorchymyn), fel yr esbonnir yn adran 7 y Datganiad hwn.

Mynedfeydd (a ddangosir wedi'u lliwio'n felyn ac oren ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.25 Bydd angen nifer o lwybrau mynediad o'r briffordd gyhoeddus agosaf i hwyluso (1) adeiladu, a (2) gweithredu a chynnal a chadw'r biblinell. Bydd angen caffael pecynnau o 'Hawliau Mynediad Adeiladu' a 'Hawliau Mynediad' dros y tir sydd wedi'i liwio'n felyn ac oren ar Fapiau'r Gorchymyn (**CD C2**), yn y drefn honno, at y dibenion hynny.

Draenio Tir (a ddangosir wedi'i liwio'n las tywyll ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.26 Bydd angen gwaith/systemau draenio cyn-adeiladu i sicrhau bod dŵr sy'n draenio o dir cyfagos yn cael ei gludo i ffwrdd o'r ardaloedd gwaith adeiladu. Bydd y system ddraenio hon yn aros ar ôl adeiladu, ochr yn ochr â systemau draenio ôl-adeiladu a ddyluniwyd i sicrhau bod y tir yn draenio'n rhydd ac y gellir parhau i'w ddefnyddio fel tir amaethyddol cynhyrchiol. Mae gwaith dylunio peirianeg cychwynnol wedi amlygu rhannau bach o dir lle na ellir cynnwys y systemau draenio hyn i gyd o fewn yr ardal Hawliau Adeiladu Piblinell o ganlyniad i dopoleg leol ac argaeledd gollyngfeydd ar gyfer y dŵr sy'n cael ei ddraenio.
- 5.27 Bydd angen caffael pecyn o "Hawliau Dylunio" at y diben hwn, y tu allan i'r coridor Hawliau Adeiladu Piblinell, dros yr ardaloedd o dir a ddangosir wedi'u lliwio'n las tywyll ar Fapiau'r Gorchymyn.

Caffael rhydd-ddaliad (a ddangosir wedi'i liwio'n binc ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.28 Mae angen caffael tir yn safle T Churchover i hwyluso cysylltu seilwaith newydd o dan y ddaear (piblinell 2km newydd) â'r seilwaith presennol. Dangosir y dyluniad cysyniadol ar gyfer hyn isod, a dangosir yr estyniad i linell y ffens ddiogelwch bresennol yn oren. Mae'r ffens 'postyn a gwifren' yn cynrychioli hyd a lled y tir wedi'i liwio'n binc ar y Mapiau CPO. Bydd trap Medrydd Archwilio Piblinell presennol yn cael ei symud ymaith i gysylltu'r biblinell newydd a bydd y cyfleuster adfer Medrydd Archwilio Piblinell yn cael ei symud i safle Amlgyswllt Churchover yn rhan o'r gwaith cysylltu yno. Bydd pibwaith arall yn cael ei osod i gysylltu'r biblinell newydd â'r piblinellau sugno a rhyddhau sy'n rhedeg rhwng safle T Churchover a Gorsaf Gywasgydd Churchover, fel y gall nwy yn y biblinell newydd gael ei gywasgu i wasgeddau uwch a'i wthio tuag at Peterborough. O ganlyniad i gyfyngiadau a amlygwyd yn ystod ymchwiliadau safle helaeth yn 2022, nid oes pwyntiau cysylltu addas yn gyfan gwbl o fewn ôl troed y safle, felly bydd angen ymestyn llinell y ffens ddiogelwch bresennol i gynnwys mwy o dir ar gyfer y seilwaith newydd. Bydd rhaid i rywfaint o'r pibwaith newydd gael ei leoli ar ben y tir, felly bydd angen ei ddiogelu rhag ymyrraeth am resymau diogelwch ac ni fydd yn bosibl i'r tir gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddben arall ar yr un pryd. Er bod angen tir ychwanegol, dyluniwyd yr estyniad i fod mor fach â phosibl, ar yr un pryd â chydymffurfio â manylebau NGT ac allanol ar gyfer gosodiad seilwaith ar ben y tir.



Hawliau Diogelwch (a ddangosir wedi'u lliwio'n frown ar Fapiau'r Gorchymyn (CD C2))

- 5.29 Mae hefyd angen pecyn o "Hawliau Diogelwch" dros 'glustogfa' ddiogelwch 5m y tu allan i ffens berimedr cyfleuster T Churchover. Diben hyn yw atal codi unrhyw adeiladau neu strwythurau, gosod neu storio unrhyw offer neu ddeunyddiau, parcio unrhyw gerbydau, plannu neu dyfu unrhyw goed, prysglwyni neu lystyfiant arall ar y tir, neu gynyddu lefel ddaear y tir, y gellid disgwyl yn rhesymol iddo alluogi'r ffensys diogelwch o amgylch y seilwaith parhaol i gael eu dringo/torri. Dangosir y 'glustogfa' ddiogelwch 5m hon wedi'i lliwio'n frown ar Fapiau'r Gorchymyn **(CD C2)**.

6. TROSOLWG O DIR Y GORCHYMYN-

- 6.1 Dangosir Tir y Gorchymyn ar y mapiau sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn. Mae'n cynnwys yr holl dir sy'n ofynnol ar gyfer adeiladu, gweithredu, atgyweirio, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Prosiect:
- 6.2 **Piblinell newydd o Wormington i Honeybourne (Mapiau Gorchymyn 2 i 8 (CD C2))-** Tir amaethyddol yw tir y Gorchymyn y mae angen hawliau drosto ar gyfer y biblinell 9km newydd rhwng Wormington a Honeybourne a'r cyfadeiladau adeiladu dros dro cysylltiedig. Mae llwybr y biblinell yn mynd trwy dir â'r glaswelltir. Mae gradd y tir yn amrywio o dda iawn i dda i gymedrol, ac mae'n rhannol radd 2 ond yn bennaf gradd 3, fel y'i diffinnir yng nghynlluniau Dosbarthu Tir Amaethyddol Cymru a Lloegr (a gyhoeddwyd yn 2010) **(CD E9)**. Nid yw'r llwybr yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw gwrtil preswyl nac yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw adeiladau fferm. Mae'r llwybrau mynediad parhaol arfaethedig ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw'r Prosiect yn defnyddio mynedfeydd caeau presennol o'r briffordd yn bennaf, ond hefyd rhai traciau fferm sy'n mynd heibio'n agos i eiddo preswyl. Mae llwybr y biblinell nwy newydd yn croesi nifer o nodweddion ffisegol fel cyrsiau dŵr, perthi, ffosydd a ffyrdd, y bydd angen eu croesi gan ddefnyddio technegau gosod di-ffos.
- 6.3 **Piblinell newydd yn Churchover (Mapiau Gorchymyn 1 (CD C2))-** Tir amaethyddol yw tir y Gorchymyn y mae angen hawliau drosto ar gyfer y biblinell 2km newydd yn Churchover a chyfadeiladau adeiladu dros dro cysylltiedig, a thir (rhydd-ddaliad) sy'n

ofynnol ar gyfer gwaith yn safle T Churchover. Mae llwybr y biblinell yn mynd trwy dir â'r glaswelltir. Mae'r gwaith yn rhyngweithio â thir sy'n cynnwys tir gradd 2, 3 a 4 a ddosberthir yn ei dro fel bod yn Dda Iawn, yn Dda i Gymedrol ac yn Wael I, fel y'i diffinnir yng nghynlluniau Dosbarthu Tir Cymru a Lloegr (a gyhoeddwyd yn 2010) **(CD E9)**. Mae'r llwybr yn effeithio ar ardaloedd nad yw'n ymddangos eu bod yn cael eu ffermio'n weithredol ar gyfer cynhyrchu nwyddau. Nid yw'r llwybr yn effeithio ar unrhyw gwrtil preswyl nac yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw adeiladau fferm. Mae'r llwybrau mynediad parhaol arfaethedig sy'n ofynnol i weithredu a chynnal a chadw'r Prosiect yn defnyddio pwyntiau mynediad cae presennol o'r briffordd fabwysiedig agosaf a thraciau fferm sy'n cysylltu â phriffyrdd mabwysiedig. Mae llwybr y biblinell nwy yn croesi nifer o nodweddion ffisegol fel cyrsiau dŵr, perthi, ffosydd, ffyrdd a lledgamlas.

6.4 **Cyfleuster Trap PIG Aberllynfi (Map Gorchymyn 9 (CD C2))**- Mae'r cyfadeilad adeiladu dros dro o amgylch yr estyniad i'r Seilwaith ar Ben y Tir (AGI) yn Aberllynfi yn cynnwys tir amaethyddol, sef tir pori a thir â'r parhaol. Bydd y cyfadeilad yn ofynnol yn ystod y cam adeiladu yn unig. Ar ôl y gwaith adeiladu, bydd y cyfadeilad yn cael ei symud ymaith a bydd y tir yn cael ei adfer.

6.5 **Gorsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw (Map Gorchymyn 10 (CD C2)):**

6.5.1 Y bwriad gwreiddiol wrth ystyried opsiynau ar gyfer y Prosiect oedd cadw'r lefelau hyblygrwydd presennol (h.y. gallu'r Gweithredwr System Nwy (NGT) i ad-drefnu'r⁶ rhwydwaith i ymdopi â newidiadau i'r cyflenwad/galw) o fewn y rhwydwaith ar yr un pryd â chynyddu'r gallu ffisegol⁷, i alluogi SHGCL i lifo mwy o nwy ar y system o Aberdaugleddau.

6.5.2 Amlygodd gwaith dylunio prosiect fod angen gwneud gwaith addasu i nifer o osodiadau ar ben y tir, sef Cyfleuster Trap PIG Aberllynfi, CS Felindre, Tirley a Gorsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw, er mwyn gallu uwchraddio gwasgedd h.y. cynyddu'r gwasgedd llifo nwy i alluogi SHGCL i lifo mwy o nwy ar y system, ar yr un pryd â chynnal hyblygrwydd gweithredu'r system. Llywiodd y gwaith dylunio hwn y gofynion tir yn y gosodiadau hyn. (Esbonnir y gofynion tir yng Nghyfleuster Trap PIG Aberllynfi ym mharagraff [6.4 uchod.] Ar gyfer addasiadau yn CS Felindre a Tirley, defnyddir tir y mae NGT yn berchen arno (gweler paragraff [5.7.13] uchod).

6.5.3 Yng Nghil-ffriw, amlygodd y gwaith dylunio fod angen Hawliau Mynediad Adeiladu dros Leiniau 177 a 178 a Hawliau Cyfadeilad Adeiladu dros Lain 179 i alluogi NGT i greu a defnyddio cyfadeilad a mynedfa dros dro iddo (a'u symud ymaith ar ôl cwblhau'r gwaith) i hwyluso'r gwaith addasu. Roedd y gwaith dylunio wedi'i seilio ar dybiaethau penodol ynglŷn â gallu'r pibwaith a'r offer presennol i lifo nwy yn ddiogel ar wasgedd (uwch) wedi'i uwchraddio. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod data hanfodol ynglŷn â gallu pibwaith/offer presennol Cil-ffriw i lifo nwy yn ddiogel ar wasgedd wedi'i uwchraddio, a ddaliwyd gan y Gweithgynhyrchwyr Offer Gwreiddiol (OEM) ac a oedd yn ofynnol ganddynt, wedi cymryd mwy o amser i'r OEMs eu cael a'u rhoi i NGT.

6.5.4 Ym mis Hydref 2022 (pan 'wnaed' y Gorchymyn), roedd y wybodaeth angenrheidiol yn eisiau o hyd ac nid oedd NGT yn sicr pryd y byddai'n cael ei darparu. Ni ellid oedi gwneud y Gorchymyn y tu hwnt i fis Hydref 2022 oherwydd yr effaith bosibl ar raglen y Prosiect.

6.5.5 Bydd y rhannau newydd o biblinell yn darparu dwy ran o dair o'r gallu ffisegol i lifo mwy o nwy o Aberdaugleddau (bydd uwchraddio'n darparu'r gweddill), sef y rheswm cyffredinol pam mae angen y Prosiect a'r Gorchymyn. Felly, mae'r biblinellau'n cael blaenoriaeth dros uwchraddio.

6.5.6 Ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud, derbyniodd ac adolygodd NGT y data a oedd yn ofynnol gan yr OEMs. Cadarnhaodd y data y byddai angen addasiadau sylweddol yng Ngorsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw i allu cynyddu'r gwasgedd llifo nwy.

⁶ Ystyr 'ad-drefnu' yw newid cyfeiriad, gwasgedd a chyfradd llif nwy o bell trwy'r rhwydwaith

⁷ Ystyr 'gallu' yw gallu ffisegol y rhwydwaith i symud nwy.

6.5.7 Byddai graddfa'r gwaith addasu y cadarnhawyd ei fod yn angenrheidiol yn golygu y byddai angen cau'r Orsaf Lleihau Gwasgedd am gyfnod o oddeutu dau fis ac, ynghyd â gwaith cynnal a chadw hanfodol arall ar draws y rhwydwaith lleol, byddai'n cael effaith annerbyniol ar y gallu i drawsgludo nwy ar wasgedd digonol. Byddai'r addasiadau hefyd yn sylweddol ddrutach nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

6.5.8 Fel y nodwyd uchod, bydd y ddwy biblinell newydd yn darparu dwy ran o dair o'r gallu ffisegol i lifo mwy o nwy o Aberdaugleddau. Bydd uwchraddio Cyfleuster Trap PIG Aberllynfi, CS Felindre, a Tirley yn darparu'r gweddill. Byddai'r gwaith addasu yng Nghilffriw yn cadw hyblygrwydd presennol y system, ond nid yw'n ofynnol i fodloni cais PARCA SHGCL i ganiatáu i fwy o nwy gael ei lifo ar y system o Aberdaugleddau. Felly, mae NGT wedi penderfynu y dylai addasiadau uwchraddio Cil-ffriw gael eu dileu o'r Prosiect.

6.5.9 Nid oes angen y tir yng Nghil-ffriw a gynhwyswyd yn y Gorchymyn i greu a defnyddio cyfadeilad gwaith dros dro a mynediad iddo (y Lleiniau) mwyach ac mae NGT wedi gofyn iddo gael ei ddileu o'r Gorchymyn.

7. TIR A HAWLIAU NEWYDD SYDD I'W CAFFAEL

Caffael Rhydd-ddaliad

7.1 Mae NGT yn defnyddio dull cymesur o gaffael ac yn ceisio caffael y rhydd-ddaliad ar gyfer tir dim ond at ddibenion gosod cyfarpar ar ben y tir sy'n cydffinio â gosodiad presennol y Grid Cenedlaethol yn safle T Churchover. Mae angen i'r cyfarpar gael ei osod ar ben y tir o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfarpar presennol o dan y ddaear. Bydd y cyfarpar hwn, er mwyn diogelwch, yn cael ei ymgorffori yn safle presennol y Grid Cenedlaethol. Bydd prif gyfadeilad gwaith Churchover ar gyfer gwaith adeiladu'r biblinell yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith hwn hefyd. Bydd hawliau mewn tir yn cael eu caffael ym mhob achos arall.

7.2 Dangosir Tir y Gorchymyn y mae NGT yn ceisio caffael y rhydd-ddaliad ar ei gyfer wedi'i liwio'n binc ar Fap y Gorchymyn **1(CD C2)**.

Caffael hawliau newydd yn orfodol

7.3 Mae'r hawliau newydd a geisir gan NGT wedi cael eu gwahanu'n 'becynnau' yn seiliedig ar eu diben ac wedi'u cymhwyso i leiniau penodol, fel y bo'n briodol. Mae rhai o'r hawliau'n ofynnol at ddibenion dros dro yn unig, fel creu cyfadeiladau adeiladu, ac fe'u harferir yn ystod y cam adeiladu yn unig. Bydd angen hawliau eraill yn barhaol, fel yr hawl i osod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r rhannau newydd o biblinell.

7.4 Mae'r 'pecynnau' hawliau wedi cael eu teilwra yn y modd hwn i sicrhau bod dull cymesur o brynu'n orfodol yn cael ei ddefnyddio, a bod yr effaith ar dirfeddianwyr a meddianwyr perthnasol yn cael ei chyfyngu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7.5 Diffinnir y pecynnau hawliau'n llawn yn y Gorchymyn **(CD C1)** ac fe'u hailadroddir yn **Atodiad 1** y Datganiad hwn. Mae Colofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn **(CD C1)** yn esbonio p'un a gynigir caffael tir neu hawliau newydd ai peidio mewn perthynas â'r lleiniau wedi'u rhifo o Dir y Gorchymyn. Pan gynigir caffael hawliau newydd, mae'r disgrifiad yn nodi enw'r pecyn hawliau priodol.

Gellir crynhoi'r pecynnau hawliau fel a ganlyn:

Enw'r Pecyn Hawliau	Hawliau	Lliw ar Fapiau'r Gorchymyn
Hawliau Adeiladu Piblinell	Hawliau i adeiladu'r piblinellau newydd.	Glas golau

Hawliau Piblinell	Hawliau i gadw, gweithredu, cynnal a chadw, ac ati, y piblinellau newydd a'r seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys hawliau i ddiogelu'r piblinellau rhag difrod ac ymyrraeth.	Croeslinellau coch
Hawliau Cyfadeilad Adeiladu	Hawliau i greu, defnyddio a dileu cyfadeilad adeiladu y ceir storio deunyddiau ac offer a darparu cyfleusterau lles ynddo.	Gwyrdd
Hawliau Lagŵn	Hawliau i greu, defnyddio a dileu lagŵn i storio'r dŵr sy'n ofynnol ar gyfer hydro-brofi gwasgedd pibellau nwy newydd.	Porffor
Hawliau Mynediad Adeiladu	Hawliau i gael mynediad i'r tir gyda phersonél, cerbydau ac offer, ac ati, neu hebddynt, at ddibenion adeiladu'r Prosiect.	Melyn
Hawliau Mynediad	Hawliau i gael mynediad i'r tir gyda phersonél, cerbydau ac offer, ac ati, neu hebddynt, at ddibenion gweithredu a chynnal a chadw'r Prosiect.	Oren
Hawliau Draenio	Hawliau i gynnal gwaith dad-ddyfrio, a gosod, cadw, cynnal a chadw, ac ati, systemau draenio tir, gan gynnwys hawliau i atal difrod i'r systemau draenio tir neu fynediad atynt.	Glas tywyll
Hawliau Diogelwch	Hawliau i: atal codi unrhyw adeiladau neu strwythurau, gosod neu storio unrhyw offer neu ddeunyddiau, parcio unrhyw gerbydau, plannu neu dyfu unrhyw goed, prysglwyni neu lystyfiant arall ar y tir, neu gynyddu lefel ddaear y tir, y gellid disgwyl yn rhesymol iddo alluogi ffensys ar dir cyffiniol i gael eu dringo/torri; a dileu, torri, trimio neu docio coed, llwyni a llystyfiant arall.	Brown

8. YR YMAGWEDD AT GAFFAEL TRWY GYTUNDEB

- 8.1 Mae'r Atodlen i'r Gorchymyn (**CD C1**) yn amlygu'r unigolion hynny sydd â buddiant yn Nhir y Gorchymyn. Mae NGT wedi ceisio ymwneud yn adeiladol â thrafodaethau ystyrion â holl berchnogion a meddianwyr hysbys Tir y Gorchymyn, gyda'r bwriad o gaffael y tir a'r hawliau newydd sy'n angenrheidiol ar gyfer y Prosiect trwy gytundeb os oes modd, yn unol â'r Canllawiau CPO **CD A15**).
- 8.2 Ar ôl amlygu'r perchnogion tir perthnasol trwy gyfeirnod cysylltiadau, a ddechreuodd ym mis Chwefror 2021, mae NGT wedi ymgymryd â rhaglen ymgysylltu gyda phob tirfeddiannwr a'i gynghorwyr proffesiynol trwy; lythyrau/gohebiaeth e-bost, cyfathrebu dros y ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, lle y bo'n briodol. Gweler yr atodlen ymgysylltu yn **Atodiad 2** i gael rhagor o fanylion.
- 8.3 Rhoddodd NGT Benawdau Telerau arfaethedig ar y dyddiadau canlynol:

Rhan Hawliau	Crynodeb o'r telerau a roddwyd	Dyddiad Rhoi'r Penawdau Telerau
Piblinell Wormington i Honeybourne a Churchover	Cynigiwyd Penawdau Telerau ar gyfer Opsiwn i Ryddfaint a Phenawdau Telerau ar gyfer Opsiwn i Brydlesu i'r holl bartïon a amlygwyd.	22 Hydref 2021
Wormington i Honeybourne	Rhoddwyd ffurflenni caniatâd meddiannwr i'r holl feddianwyr gyda chyfnod heb ddarvoud o fwy na 3 blynedd.	17 Tachwedd 2021

Rhoddwyd telerau ychwanegol ar gyfer Wormington i Honeybourne	Amlygwyd gofynion ardal weithio dros dro ychwanegol a rhoddwyd set ychwanegol o Benawdau Telerau ar gyfer Prydlesu.	16 Rhagfyr 2021
Rhoddwyd telerau ychwanegol ar gyfer Wormington i Honeybourne	Rhoddwyd telerau ychwanegol i ddau o'r partion yn dilyn cais i symud ymlaen â chytundebau gydag endidau cyfreithiol ar wahân.	17 Rhagfyr 2021
Safle T Churchover	Cynigiwyd Penawdau Telerau ar gyfer Opsiwn i Ryddfaint a chaffael rhydd-ddaliad ar gyfer ymestyn safle T Churchover. DS: cadarnhawyd wedi hynny bod angen rhydd-ddaliad.	10 Ionawr 2022
Safleoedd AGI	Rhoddwyd Penawdau Telerau ar gyfer Opsiwn i Brydlesu.	12 Ionawr 2022
Cynigiwyd Telerau Ychwanegol ar gyfer Safleoedd AGI	Rhoddwyd set ychwanegol o Benawdau Telerau ar gyfer Prydlesu pan amlygwyd bod angen tir ychwanegol.	20 Ebrill 2022
Rhoddwyd telerau ychwanegol ar gyfer Wormington i Honeybourne	Rhoddwyd telerau diwygiedig i adlewyrchu gostyngiad yn y tir dros dro sy'n ofynnol i hwyluso adeiladu.	11 Mai 2022
Piblinell Churchover	Rhoddwyd Cynllun wedi'i ddiweddarau i Ymddiriedolwyr Cangen Ysbyty Wyggestons	10 Mehefin 2022
AGI - mynediad safle (Cilffriw)	Gweithred Hawddfaint â thelerau ar gyfer mynediad	28 Mehefin 2022
Wormington i Honeybourne	Penawdau telerau ar gyfer opsiwn hawddfaint yn dilyn newid perchnogaeth.	14 Medi 2022

- 8.4 Yn rhan o Benawdau Telerau NGT, cynigiwyd taliad cymhellol i ddychwelyd dogfennau wedi'u llofnodi o fewn 6 wythnos o'u rhoi. Yn dilyn y cynigion hyn, mae Fisher German, ar ran NGT, wedi negodi'r Penawdau Telerau yn weithredol gyda phartion sydd wedi ymgysylltu ac wedi anfon gohebiaeth ddilynol yn ceisio ymateb pan fu ymgysylltiad yn gyfyngedig. Ym mis Rhagfyr 2021, rhoddodd NGT gopiau drafft o'r Weithred Hawddfaint dempled ynghyd â Chod Ymarfer i'r tîrfeddianwyr a'r asiantiaid hynny a ofynnodd am gael gweld y dogfennau. Cytunodd NGT hefyd i ailseilio'r cyfnod cymhelliad ar gyfer y taliad ychwanegol o 16 Rhagfyr 2021 i 31 Ionawr 2022 ar ôl rhoi'r Weithred Hawddfaint ddrafft a'r Cod Ymarfer i bartion a ofynnodd amdanynt. Mae NGT wedi bod yn hyblyg ynghyd â'r cyfnodau cymhelliad pan na allai tîrfeddianwyr fodloni'r cyfnodau o ganlyniad i ffactorau y tu allan i'w rheolaeth.
- 8.5 Yn unol â Rhestr Daliadau NGT ar gyfer Asedau Trosglwyddo Nwy Newydd (**CD E2**), gwnaed cynnig o 80% o'r gwerth amaethyddol asesedig ar gyfer yr ardal hawddfaint ddisgwyliedig. Roedd y taliad cymhellol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys ychwanegiad 20% at y taliad hawddfaint (wedi'i rannu rhwng y tenant a'r tîrfeddiannwr lle y bo'n briodol).
- 8.6 Mae'r trafodaethau gwirfoddol wedi arwain at 25 o Benawdau Telerau wedi'u llofnodi ar gyfer Opsiynau a Hawddfrentiau ar yr adeg ysgrifennu, sy'n cael eu cofnodi'n gyfreithiol gan y cyfreithwyr ar hyn o bryd, ac mae dau Opsiwn wedi cael eu cyfnewid yn gyfreithiol bellach.
- 8.7 Mae NGT wedi ceisio mynediad ar gyfer arolygon anymwithiol ar droed i helpu i lywio dyluniad manylach llwybrau arfaethedig y piblinell, yr ardaloedd gweithio sy'n ofynnol ac i alluogi NGT i gynnal asesiadau amgylcheddol cychwynnol. Mae NGT wedi dod i gytundeb ar gyfer mwyafrif y mynediad sy'n ofynnol i gynnal arolygon ac mae wrthi'n negodi â dau

dirfeddiannwr sy'n weddill. Mae arolygon ymwithiol yn cael eu rhaglennu a'u cytuno gyda thirfeddianwyr ar hyn o bryd.

9. CYDSYNIADAU SY'N OFYNNOL AR GYFER Y PROSIECT

- 9.1 Diffinnir y cydsyniadau sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect gan natur a graddfa'r Prosiect a'i effeithiau amgylcheddol posibl. Mae barnau sgrinio wedi cadarnhau nad yw'r Prosiect yn ddatblygiad y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) arno. Cadarnhawyd hyn ar gyfer y ddwy ran o biblinell newydd a'u gwaith cysylltu cysylltiedig gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) (sef yr awdurdod perthnasol) yn ei barn gwmpasu dyddiedig 17 Rhagfyr 2020 **(CD B1)**. Yn yr un modd, derbyniwyd cadarnhad nad yw'r gwaith arfaethedig yn Felindre, Cil-ffriw ac Aberllynfi (yr oedd angen ei sgrinio o ganlyniad i'r darpar ardal waith) yn ddatblygiad AEA gan yr awdurdodau unigol, sef Cyngor Abertawe (16 Mawrth 2021) **(CD B2)**, Cyngor Castell-nedd Port Talbot (30 Mawrth 2021) **(CD B3)**, a Chyngor Sir Powys (15 Mawrth 2022) **(CD B4)**.

Cydsyniadau sydd eisoes ar waith

- 9.2 Mae barnau sgrinio wedi cadarnhau nad yw unrhyw ran o'r gwaith yn ddatblygiad AEA, felly mae adeiladu'r biblinell, unrhyw waith dros dro ac unrhyw waith o fewn tir gweithredol presennol yn dod yn weithgareddau y gellir eu gwneud fel datblygiad a ganiateir. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol fel a ganlyn:

9.2.1 Gwaith yng Nghymru⁸:

9.2.1.1 Atodlen 2, Rhan 17, Dosbarth F – Datblygiad gan Ymgwymerwyr Statudol **(CD A6.2)**

9.2.1.2 Atodlen 2, Rhan 4, Dosbarth A – Adeiladau a Gwaith Dros Dro **(CD A6.1)**.

9.2.2 Gwaith yn Lloegr⁹:

9.2.2.1 Atodlen 2, Rhan 15, Dosbarth A – Datblygiad Cysylltiedig â Phŵer – Cludwyr Nwy **(CD A12.2)**

9.2.2.2 Atodlen 2, Rhan 4, Dosbarth A – Adeiladau a Strwythurau Dros Dro **(CD A12.1)**.

- 9.3 Roedd Hysbysiad ffurfiol o Flaen Llaw (gyda chyfnod ymateb statudol 56 diwrnod) yn ofynnol ar gyfer y gwaith piblinell newydd yn Churchover a rhwng Honeybourne a Wormington yn unig. Fe'i cyflwynwyd ym mis Chwefror 2022. Daeth y cyfnodau hysbysu i ben yng nghanol mis Ebrill 2022. Nid oes gofyniad ffurfiol i'r awdurdodau perthnasol gymeradwyo hysbysiadau o'r fath ac ni dderbyniwyd unrhyw ymholiadau na sylwadau gan unrhyw awdurdod.

- 9.4 Yn ogystal, rhoddodd NGT wybod i'r awdurdodau lleol perthnasol (fel yr amlinellir isod) am y gwaith datblygu arall a ganiateir (lle nad oes angen hysbysiad ffurfiol o flaen llaw) a rhoddodd 28 niwrnod ar gyfer unrhyw sylwadau. Roedd y cyflwyniad terfynol yn ymwneud ag Aberllynfi ym mis Ionawr 2022. Mae'r holl gyfnodau ymateb perthnasol wedi mynd heibio ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau:

9.4.1 Cyngor Abertawe – Alltwern a Felindre

9.4.2 Powys – Aberllynfi

9.4.3 Castell-nedd Port Talbot – Cil-ffriw

⁸ Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd)

⁹ Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Lloegr) 2015

- 9.4.4 Sir Gaerfyrddin – Llanwrda
- 9.4.5 Cyngor Bwrdeistref Tewkesbury – Tirley
- 9.5 Mae angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio penodol ar gyfer rhywfaint o'r gwaith o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA") **(CD A5)**. Amlinellir y rhain isod ynghyd â'r dyddiadau cyflwyno a'r ymatebion a dderbyniwyd:
- 9.5.1 Safle T Churchover – Mae angen estyniad parhaol i'r AGI presennol yn safle T Churchover. Gwnaed cais cynllunio (Cyfeirnod R22/0130) ar 16 Chwefror 2022. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn unol â'r cais ar 8 Awst 2022 ar gyfer yr estyniad **(CD B5)**.
- 9.5.2 Mynedfa Dros Dro. Mae angen mynedfa dros dro sy'n gofyn am gyflwyniadau TCPA mewn dau leoliad ar Ran Wormington i Honeybourne o'r biblinell. Mae trafodaethau cychwynnol â'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol wedi cadarnhau derbynoldeb y lleoliadau hyn mewn egwyddor. Bydd ceisiadau perthnasol yn cael eu gwneud gan y contractwr a benodir ar gyfer y ddau leoliad canlynol sydd wedi cael eu trafod gyda'r tirlfeddianwyr:
- 9.5.2.1 Yr A44 i'r de-ddwyrain o Evesham ar Pitchers Hill
- 9.5.2.2 Y B4035 Weston Road i'r de-orllewin o Faes Awyr Honeybourne
- 9.6 Nid oes angen i NGT gael cydsyniadau cynllunio nac amgylcheddol ychwanegol ar gyfer uwchraddio'r biblinell gan fod yr uwchraddio ei hun o fewn cwrpas caniatadau presennol adeiladu piblinell ac nid yw'n arwain at unrhyw ddefnydd tir na newidiadau amgylcheddol parhaol na dros dro.

Cydsyniadau a fydd yn ofynnol y bydd angen cymeradwyaeth ychwanegol ar eu cyfer

- 9.7 Disgwylir y bydd angen y cydsyniadau canlynol, na ddarperir ar eu cyfer yn y caniatâd/caniatadau a'r cydsyniad(au) a sicrhawyd eisoes:
- 9.7.1 **Cymeradwyo manylion ac ati sy'n ofynnol gan amodau cynllunio TCPA yn ymwneud â'r estyniad i safle T Churchover**
- Mae'n bosibl y bydd angen cymeradwyaeth o flaen llaw ar rai o fanylion y caniatâd TCPA cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn cael ei symud ymlaen gan y contractwyr adeiladu sydd i'w penodi gan NGT.
- 9.7.2 **Diweddariad i fanylion penodol Cynlluniau Rheoli Traffig a Chynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu**
- Bydd manylion penodol dogfennau drafft yn cael eu hadolygu gydag adrannau perthnasol yr awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddilys cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn cael ei symud ymlaen gan y contractwyr adeiladu sydd i'w penodi gan NGT.
- 9.7.3 **Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir yn unol â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010**
- Sicrhawyd cytundeb â Natural England i fabwysiadu dull Trwydded Ranbarth mewn perthynas â mesurau lliniaru Madfallod Dŵr Cribog ar gyfer piblinell Wormington i Honeybourne. Mae'r rhain yn cael eu darparu gan Naturespace ac fe'u gweithredir cyn i'r gweithgarwch adeiladu ddechrau. O ran rhywogaethau eraill, bydd arolygon ychwanegol (y tu hwnt i'r rhai a gwblhawyd hyd yma) yn cael eu cwblhau cyn adeiladu (disgwylir i arolygon gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod o fis Chwefror i fis Medi 2023) i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth rhywogaethau, sef dull sy'n arferol o ystyried symudedd rhywogaethau.

Disgwylir i'r gwaith arolygu ychwanegol hwn gael ei gwblhau gan y contractwyr adeiladu sydd i'w penodi gan NGT.

9.7.4 **Gwyrriadau priffordd/llwybr troed dros dro ac ati**

Er bod y gofyniad am gau/gwyrriadau dros dro wedi cael ei amlygu oherwydd bod y biblinell yn croesi nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, bydd yr union drefniadau'n dibynnu ar raglen a dulliau'r contractwyr adeiladu a byddant yn cael eu cadarnhau ar ôl penodi. Nid yw ymgysylltiad cychwynnol â'r swyddogion priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus lleol wedi codi unrhyw bryderon ac ni welwn unrhyw resymau pam na fyddai gwyrriadau/cytundebau o'r fath yn cael eu caniatáu.

9.7.5 **Trwyddedau tynnu a rhyddhau i ganiatáu ar gyfer creu lagwnau dros dro**

Fel yr esboniwyd ym mharagraff 5.15 uchod, bydd angen dŵr i gwblhau hydro-brofi'r rhannau newydd o biblinell i sicrhau eu cyfanrwydd. Mae NGT wedi amlygu lleoliadau addas ar gyfer tynnu dŵr o gyrsiau dŵr y mae'r ddwy biblinell yn eu croesi, ac wedi cadarnhau mewn egwyddor gydag Asiantaeth yr Amgylchedd argaeledd a derbynoldeb tynnu'r cyfaint sy'n angenrheidiol, gan nodi rhai cyfyngiadau arferol sy'n atal tynnu dŵr o dan amodau llif isel yn y cwrs dŵr. Bydd dŵr yn cael ei dynnu a'i storio mewn lagwnau dros dro cyn cael ei ryddhau yn y man lle y'i tynnwyd ar ôl i'r hydro-brofi gael ei gwblhau.

9.8 Mae'r gofynion uchod yn nodweddiadol ar gyfer datblygiad o'r math hwn ac mae NGT yn gyfarwydd â chwmpas angenrheidiol gwaith i'w cyflawni. Os nodir bod angen cydsyniadau/trwyddedau ychwanegol wrth i ddyluniad manwl y Prosiect ddatblygu, mae NGT yn hyderus y bydd y rhain yn cael eu cytuno'n foddhaol gyda'r awdurdodau perthnasol hefyd.

10. **YSTYRIAETHAU ARBENNIG**

10.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r rhannau hynny o Dir y Gorchymyn y gwneir darpariaeth arbennig ar eu cyfer.

Tir y Goron

10.2 Mae nifer o leiniau o Dir y Gorchymyn y mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn hawliau mynediad ynddynt. Felly, buddiannau'r Goron yw'r hawliau a'r buddiannau hyn ac ni ellir eu caffael yn orfodol. Er bod NGT ond yn bwriadu caffael pecynnau newydd penodol o hawliau yn y lleiniau hyn, mae buddiannau'r Goron wedi cael eu heithrio'n benodol o'r disgrifiadau o'r lleiniau yn Atodlen y Gorchymyn.

Tir Ymgwymerwyr Statudol

10.3 Mae Paragraff 3 Atodlen 3 Deddf Caffael Tir 1981 ("**Deddf 1981**") (**CD A3.1**) yn datgan pan fydd tir y bwriedir caffael hawl drosto trwy orchymyn prynu gorfodol yn cynnwys tir a gaffaelwyd gan ymgwymerwr statudol at ddibenion ei ymgwymeriad a bod yr ymgwymerwr hwnnw'n gwneud ac yn cynnal cynrychiolaeth yn erbyn ei gadarnhau, ni ellir cadarnhau'r gorchymyn gan gynnwys tir yr ymgwymerwr statudol, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwlad yn fodlon bod yr hawliau dros dir:

(a) yn gallu cael eu prynu heb niwed difrifol i gynnal yr ymgwymeriad, neu

(b) fod unrhyw niwed i gynnal yr ymgwymeriad, o ganlyniad i gaffael yr hawl, yn gallu cael ei unioni gan yr ymgwymerwr trwy ddefnyddio tir arall y maen nhw'n berchen arno neu sydd ar gael iddynt ei gaffael a bod tystysgrif yn cael ei darparu i'r perwyl hwnnw.

10.4 Mae nifer o leiniau o Dir y Gorchymyn ym mherchnogaeth ymgwymerwyr statudol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y lleiniau hynny y mae ymgwymerwyr statudol yn berchen arnynt a statws trafodaethau gyda nhw. Fel y gellir gweld, mae trafodaethau NGT â'r holl

ymgymerwyr statudol sy'n berchen ar Dir y Gorchymyn wedi cyrraedd cam datblygedig gyda'r bwriad o sicrhau'r hawliau y mae arno eu hangen ar gyfer y Prosiect.

Ymgwymerwr Statudol	Rhif y Llain	Penawdau Telerau wedi'u cytuno	Cytundebau wedi'u Cwblhau
Yr Ymddiriedolaeth Seilwaith Dyfrffyrdd d/o yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	9 ac 11	Ydynt	
Severn Trent Water	2	Ydynt	

- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (CRT) – Mae'r rhan 2km o biblinell yn Churchover yn croesi tir sydd ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Seilwaith Dyfrffyrdd d/o CRT. Mae'r tir hwn yn ffurfio lledgamlas. Bwriedir drilio'r bibell o dan y lledgamlas ac ni ddisgwylir iddi effeithio ar weithredu na defnyddio'r lledgamlas yn ystod y gwaith adeiladu nac ar ôl adeiladu. Mae Penawdau Telerau ar gyfer cytundeb wedi cael eu cytuno â CRT.
- Severn Trent Water (STW) – Mae cyfran o'r mynediad i'r ardal waith dros dro yn safle Churchover yn rhyngweithio â thir sydd ym mherchnogaeth STW. Mae'r tir hwn y tu allan i ffens weithredol STW, ond mae NGT yn bwriadu defnyddio mynedfa a rennir y tu allan i'r safle gweithredol. Nid yw NGT yn disgwyl cyfyngu ar y fynedfa i safle STW, ac felly ni fyddai unrhyw niwed i swyddogaeth statudol STW. Mae Penawdau Telerau ar gyfer yr hawliau mynediad sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect wedi cael eu cytuno.

Tir Awdurdod Lleol a Thir Ymgwymerwyr Statudol

- 10.5 Mae paragraff 4 Atodlen 3 Deddf 1981 (**CD A3.1**) yn ymwneud â thir sy'n eiddo i awdurdod lleol neu sydd wedi cael ei gaffael gan ymgwymerwr statudol at ddiben ei ymgwymeriad. Fel y nodwyd uchod, mae rhywfaint o Dir y Gorchymyn ym mherchnogaeth ymgwymerwyr statudol, er nad yw'r cyfan honno'n 'dir gweithredol' ynddo'i hun. Mae Penawdau Telerau ar gyfer cytundebau gwirfoddol wedi cael eu cytuno â'r ymgwymerwyr hyn fel y nodwyd uchod. Mae rhywfaint o Dir y Gorchymyn ym mherchnogaeth awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon (Lleiniau 44, 48, 49, 50, 51, 52, 53, 54, 55 a 95). Mae NGT wedi cytuno ar Benawdau Telerau gyda Chyngor Sir Swydd Gaerwrangon ac mae'r cytundebau gwirfoddol wrthi'n cael eu negodi gan y cyfreithwyr ar hyn o bryd.
- 10.6 Mae paragraff 4(2) Atodlen 3 (**CD A3.1**) yn datgan os bydd gwrthwynebiadau i gynnwys tir o'r fath mewn gorchymyn prynu gorfodol yn cael eu gwneud ac nid ydynt yn cael eu tynnu'n ôl, bydd y gorchymyn hwnnw'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig. Fodd bynnag, mae paragraff 4(3) Atodlen 3 yn datgan pan fydd yr unigolyn sy'n caffael y buddiant yn ymgwymerwr statudol, ni fydd paragraff 4(3) Atodlen 3 yn berthnasol. Oherwydd bod gan NGT Drwydded (**CD E1**) o dan Ddeddf 1986, mae'n ymgwymerwr statudol at ddibenion Deddf 1981, ac felly ni fyddai gweithdrefn seneddol arbennig yn berthnasol pe byddai gwrthwynebiad o dan baragraff 4(2) yn weddill.

Tir Man Agored

- 10.7 Nid oes unrhyw ran o Dir y Gorchymyn yn dod o fewn y diffiniad o 'dir comin', 'rhandir tanwydd neu ardd gae' neu 'fan agored' at ddibenion paragraff 6 Atodlen 3 Deddf 1981 **(CD A3.1)**.

Tir a ddelir yn anwahanadwy gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

- 10.8 Nid oes unrhyw ran o Dir y Gorchymyn yn cynnwys tir a ddelir yn anwahanadwy gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol at ddibenion paragraff 5 Atodlen 3 Deddf 1981 **(CD A3.1)**.

11. DARPARU AC ADNODDAU

- 11.1 Bydd y piblinellau'n cael eu dylunio'n fanwl a'u hadeiladu gan un contractwr neu fenter ar y cyd. Mae'r broses dendro ar gyfer y gwaith wedi dechrau a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu yn yr hydref 2023.
- 11.2 Yna, bydd y contractwr llwyddiannus yn dylunio'r ddwy biblinell a'r cysylltiadau cysylltiedig â'r rhwydwaith presennol (yr NTS) yn fanwl.
- 11.3 Disgwylir i'r piblinellau ddechrau cael eu hadeiladu yn gynnar yn 2024, ac i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn.
- 11.4 Mae NGT yn gyfrifol am gostau datblygu, adeiladu, ac ariannu'r Prosiect, ac mae wedi asesu'r costau hynny. Mae hefyd yn gyfrifol am yr iawndal a fydd yn daladwy ar gyfer caffael tir a hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect, boed hynny'n unol â chytundeb gwirfoddol neu'r Cod Iawndal, ac mae wedi asesu'r iawndal hwnnw, gan gynnwys taliadau o flaen llaw a hawliadau malltod.
- 11.5 Mae buddsoddiadau seilwaith NGT yn cael eu hariannu trwy gyfuniad o ddefnyddwyr ac NGT ei hun. Mae cyllid defnyddwyr yn dod o fframwaith ariannol priodol o gytbwys sy'n allweddol i godi tâl teg ar ddefnyddwyr presennol ac yn y dyfodol am y rhwydweithiau maen nhw'n eu defnyddio a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, a chyflawnir hyn trwy fframwaith rheoleiddiol Ofgem, a adwaenir fel RIIO T2 (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau). Mae RIIO-T2 yn rheolaeth ar brisiau sy'n parhau am bum mlynedd, o 2021-2026. Mae Ofgem yn adolygu lefel y cyllid a ddarperir yn gyfnodol ar ddechrau ac yn ystod pob cyfnod rheoli prisiau. Bydd y cyllid ar gyfer y Prosiect yn cael ei benderfynu trwy Ddull Ansicrwydd Cyflawnadwy Rheoli Prisiau Ailagor Capasiti Gorfodol Cynyddrannol a Ariennir (FIOC) RIIO-T2 fel y'i rhagnodir gan Drwydded NGT **(CD E1)**, y disgrifir y broses ar ei chyfer ym mharagraffau 11.6 ac 11.8. Dyluniwyd y dull hwn yn benodol i sicrhau bod NGT yn derbyn y cyllid i'w alluogi i fodloni ei rwymedigaethau o dan ei Drwydded **(CD E1)** a'r Cod Rhwydwaith Unffurf¹⁰ **(CD E10)**, fel y manylir yn yr adran dyletswyddau statudol yn Adran 3 y Datganiad hwn.
- 11.6 Mae'r broses yn cynnwys dau gam ar wahân. Mae'r cam cyntaf yn mynnu bod NGT yn cael cymeradwyaeth ar gyfer achos anghenion y Prosiect cyn symud ymlaen i gam dau. Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd NGT achos anghenion am fuddsoddiad sylweddol ar gyfer y Prosiect. Yn rhan o'r broses hon, adolygodd a chymeradwyodd Ofgem yr achos anghenion ar gyfer y Prosiect ar 14 Rhagfyr 2021.
- 11.7 Mae'r ail gam yn cynnwys cyflwyno cais manwl am gyllid ar ffurf cais Cyfeiriad Prosiect. Ar y cam hwn, bydd Ofgem yn gwneud ei benderfyniad terfynol ynglŷn â faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer y Prosiect. Mae NGT yn bwriadu gwneud ei gyflwyniad yn yr haf 2023.
- 11.8 O ystyried cyfalaf gweithio a statws credyd cryf y Grid Cenedlaethol, a'r achos anghenion ar gyfer y Prosiect a gymeradwywyd gan OFGEM, mae'r arian sy'n ofynnol i dalu'r costau gweithredu a chaffael tir/iawndal am brynu gorfodol sy'n gysylltiedig â'r Prosiect ar gael pan fydd angen (gan gynnwys unrhyw daliadau o flaen llaw). Yn unol â hynny, mae NGT o'r farn bod y meini prawf ym mharagraffau 13 a 14 y Canllawiau CPO **(CD A15)** wedi'u bodloni.

¹⁰ [Dogfen Cod Rhwydwaith Unffurf | Cyd-Swyddfa Cludwyr Nwy \(gasgovernance.co.uk\)](https://www.gasgovernance.co.uk)

12. YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF CYDRADDOLDEB

Hawliau Dynol

- 12.1 Mae pob llain o dir a ddisgrifir yn y Gorchymyn yn ofynnol naill ai at ddibenion y Prosiect, neu'n angenrheidiol i hwyluso, neu'n ddeilliadol o'r Prosiect.
- 12.2 Mae NGT yn defnyddio dull cymesur o gaffael gorfodol ac, yn hytrach na cheisio caffael y teitl rhydd-ddaliadol i holl Dir y Gorchymyn, mae'n ceisio caffael cyfuniad o deitl rhydd-ddaliadol (ar gyfer y seilwaith newydd yn safle T Churchover) a hawliau parhaol (fel hawliau i osod a chynnal a chadw'r rhannau newydd o biblinell).
- 12.3 Mae NGT wedi ceisio caffael yr hawliau a'r buddiannau mewn tir sy'n ofynnol i gyflawni'r Prosiect trwy negodi cytundebau preifat. Amlinellir manylion y trafodaethau hyd yma yn adran 8 y Datganiad hwn.
- 12.4 Mae NGT o'r farn ei fod wedi defnyddio dull cymesur o gyfosod tir, gan ystyried yr effaith ar y rhai hynny sydd â buddiannau yn Nhir y Gorchymyn. Mae NGT wedi ceisio caffael y cyfryw dir a/neu fuddiannau sy'n gwbl angenrheidiol er mwyn i'r Prosiect symud ymlaen yn unig.
- 12.5 Er gwaethaf yr ymdrechion sylweddol a wnaed i gaffael buddiannau yn y tir trwy gyfrwng cytundeb gwirfoddol, ar 9 Mawrth 2023, nid yw NGT wedi llwyddo i sicrhau'r holl fuddiannau sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect trwy negodi. Felly, mae angen ceisio pwerau gorfodol i allu cyflawni'r Prosiect.
- 12.6 Bydd trafodaethau i gaffael buddiannau trwy gytuniad preifat yn parhau ar yr un pryd â'r broses CPO. Pan ddeuir i gytundeb gyda pherchennog unrhyw ran o'r tir sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect, bydd y tir hwnnw, heblaw pan nodir yn benodol fel arall, yn cael ei gadw'n rhan o Dir y Gorchymyn. Bydd hyn yn galluogi NGT (a'i olynwyr) i gaffael unrhyw fuddiannau trydydd parti a allai fodoli yn y tir a allai fel arall oedi, rwystro neu atal y Prosiect rhag cael ei roi ar waith neu ei weithredu. Dyma'r dull a argymhellir yn y Trosolwg Cyffredinol ar dudalen 6 y Canllawiau CPO (**CD A15**).
- 12.7 O ran Hawliau Dynol, mae Adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 (**CD A7.1**) yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus rhag gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") (**CD A1**). Crynhoir y safbwynt hwn ym mharagraff 12 y Trosolwg Cyffredinol o'r Canllawiau, sy'n datgan y dylai gorchymyn prynu gorfodol gael ei wneud dim ond pan fydd "*achos cymhellol er budd y cyhoedd*". Mae'r Canllawiau (**CD A15**) yn egluro y dylai awdurdod caffael fod yn siŵr bod y dibenion y mae'n ceisio pwerau caffael gorfodol ar eu cyfer yn cyfiawnhau'n ddigonol ymyrryd â hawliau dynol y rhai hynny sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylai awdurdod caffael ystyried, yn arbennig, darpariaethau Erthygl 1 y Protocol Cyntaf (**CD A1.3**) i'r Confensiwn, ac yn achos annedd, Erthygl 8 (**CD A1.2**).
- 12.8 Mae Erthygl 1 y Protocol Cyntaf (**CD A1.3**) yn datgan:
- "*...Mae gan bob person naturiol neu gyfreithlon hawl i fwynhau ei feddiannau'n heddychlon" ac "ni chaiff neb ei amddifadu o'i feddiannau ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn ddarostyngedig i'r amodau y darperir amdanynt o dan y gyfraith ac yn ôl egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol...".*
- 12.9 Er y gallai perchnogion a meddianwyr Tir y Gorchymyn gael eu hamddifadu o'u heiddo/buddiant mewn eiddo os cadarnheir y Gorchymyn, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r gyfraith. Mae NGT ond yn ceisio caffael y teitl rhydd-ddaliadol i Dir y Gorchymyn ar gyfer seilwaith ar ben y tir newydd yn safle T Churchover. Bwriedir i weddill Tir y Gorchymyn fod yn destun hawliau newydd yn unig. Mae'r hawliau a geisir gan NGT wedi cael eu gwahanu'n 'becynnau' yn seiliedig ar eu diben a'u cymhwyso i leiniau penodol, fel y bo'n briodol. Mae rhai o'r hawliau'n ofynnol at ddibenion dros dro yn unig, fel creu cyfadeiladau adeiladu, ac fe'u harferir yn ystod y cam adeiladu yn unig. Bydd hawliau eraill yn barhaol, fel yr hawl i osod, gweithredu, atgyweirio a chynnal a chadw'r rhannau newydd

o biblinell. Mae'r 'pecynnau' hawliau wedi cael eu teilwra yn y modd hwn i sicrhau bod dull cymesur o brynu'n orfodol yn cael ei ddefnyddio, a bod yr effaith ar dirfeddianwyr a meddianwyr perthnasol yn cael ei chyfyngu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

- 12.10 Mae'r Gorchymyn yn cael ei hyrwyddo er budd y cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 1 y Protocol Cyntaf **(CD A1.3)** ac mae'r buddion cyhoeddus wedi cael eu hamlinellu'n fanwl yn gynharch yn y Datganiad hwn. Mae NGT o'r farn, felly, y bydd y Gorchymyn yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng budd y cyhoedd wrth weithredu'r Prosiect a'r hawliau preifat hynny y bydd y Gorchymyn yn effeithio arnynt.
- 12.11 Mae Erthygl 6 y Confensiwn **(CD A1.1)** yn darparu:
- *"Wrth benderfynu ei hawliau a rhwymedigaethau sifil... mae gan bawb yr hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlir gan y gyfraith."*
- 12.12 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd helaeth i'r Gorchymyn **(CD C1)** ac ymgynghorwyd â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth. Bydd pawb y mae'r Gorchymyn **(CD C1)** yn effeithio arnynt yn cael gwybod, yn cael yr hawl i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol, a bydd gan bartïon sy'n gwrthwynebu yr hawl i gael eu clywed mewn ymchwiliad cyhoeddus. Penderfynwyd bod y prosesau statudol yn cydymffurfio ag Erthygl 6 y Confensiwn **(CD A1.1)**.
- 12.13 Bydd gan y rhai hynny y caffaelir eu buddiannau o dan y Gorchymyn yr hawl i gael iawndal hefyd, a fydd yn daladwy yn unol â'r Cod Iawndal Prynu Gorfodol. Penderfynwyd bod y Cod Iawndal yn cydymffurfio ag Erthygl 8 ac Erthygl 1 **(CD A1)** Protocol Cyntaf y Confensiwn.
- 12.14 Mae NGT wedi ceisio ymyrryd cyn lleied â phosibl â hawliau'r rhai hynny sydd â buddiannau yn Nhir y Gorchymyn. Mae'r tir o fewn y Gorchymyn wedi cael ei gyfyngu i'r isafswm sy'n ofynnol er mwyn i seilwaith y Prosiect gael ei osod, ei weithredu a'i gynnal a'i gadw.
- 12.15 Felly, mae gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn, yn enwedig hawliau perchnogion eiddo, wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r Gorchymyn gael ei wneud a'i gadarnhau, a byddai'r ymyrraeth â hawliau preifat y rhai hynny yr effeithir arnynt, a fyddai'n digwydd yn anochel o ganlyniad i arfer pwerau prynu gorfodol a roddir gan y Gorchymyn, yn gyfreithlon, yn gyfiawnadwy ac yn gymesur.

Y Ddeddf Cydraddoldeb

- 12.16 Ac yntau'n gorff anghyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus, mae NGT wedi ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a amlinellir yn a149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 **(CD A10.1)** ac, wrth hyrwyddo'r Gorchymyn, mae wedi cynnal ymarfer ymgysylltu â thirfeddianwyr fel y manylir yn Atodiad 2.
- 12.17 Mae NGT wedi ystyried derbynyddion ac effeithiau ar y derbynyddion hynny trwy ei brosesau asesu amgylcheddol ar gyfer y Prosiect.
- 12.18 Nid yw NGT o'r farn ar hyn o bryd y bydd y Prosiect yn arwain at unrhyw effeithiau nac effeithiau gwahaniaethol ar unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nac ar unigolion nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol o'r fath. Fodd bynnag, mae'r broses ymgysylltu'n parhau a bydd safbwynt NGT yn cael ei fonitro'n barhaus, ac os bydd unrhyw unigolion yn cael eu hamlygu y gallai'r Prosiect gael effaith niweidiol arnynt, bydd pecynnau o fesurau cymorth yn cael eu rhoi ar waith fel y bo'r angen i liniaru unrhyw weithgarwch a amlygwyd a allai gael effaith niweidiol ar yr unigolion hyn, i'r graddau y bo'n ymarferol.
13. **Datganiad sy'n cyfiawnhau maint y cynllun sydd i'w ddiystyru at ddibenion asesu iawndal yn y 'byd dim cynllun'**
- 13.1 Mae paragraff 196(v), Adran 12 y Canllawiau CPO **(CD A15)** yn mynnu bod datganiad yn cael ei roi gan awdurdod caffael sy'n cyfiawnhau maint y cynllun sydd i'w ddiystyru at ddibenion asesu iawndal yn y 'byd dim cynllun'.

- 13.2 Yn ôl Adran 6(A) Deddf Digollediad Tir 1961 ("LCA 1961") (**CD A2.1**), "mae'r egwyddor dim cynllun i'w chymhwyso wrth asesu gwerth tir er mwyn cyfrifo faint o iawndal y dylid ei dalu gan yr awdurdod caffael ar gyfer caffael y tir yn orfodol". At ddibenion adran 6(A), mae'r "cynllun" yn golygu'r cynllun datblygu sy'n sail i'r caffael.
- 13.3 Mae Adran 6 yn esbonio mai'r cynllun sylfaenol yw'r cynllun y darperir ar ei gyfer gan y Gorchymyn oni bai y dangosir bod y cynllun sylfaenol yn gynllun sy'n fwy na'r cynllun y darperir ar ei gyfer gan yr offeryn hwnnw, ond sy'n ei ymgorffori.
- 13.4 Mae'r Gorchymyn (**CD C1**) yn awdurdodi caffael tir a hawliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Prosiect yn orfodol. Y Prosiect yw'r "cynllun" at ddibenion adran 6(A) (**CD A2.1**).

14. **Safbwyntiau Adrannau'r Llywodraeth**

14.1 Dim.

15. **Casgliad**

- 15.1 Trwy gyfrwng adran 9 ac Atodlen 3 Deddf 1986 (**CD A4**), ceir awdurdodi NGT i brynu tir a hawliau mewn tir yn orfodol.
- 15.2 Mae paragraff 12 y Canllawiau CPO (**CD A15**) yn datgan y dylai gorchymyn prynu gorfodol gael ei wneud dim ond pan fydd achos cymhellol er budd y cyhoedd ac mae'n esbonio bod rhai egwyddorion sylfaenol y dylai gweinidog sy'n cadarnhau eu hystyried wrth benderfynu p'un ai cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol ai peidio. Mae'r egwyddorion sylfaenol hyn fel a ganlyn:

Bod gan NGT, fel awdurdod caffael, syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir (neu'r hawliau dros dir) y mae'n bwriadu ei gaffael (paragraff 13 y Canllawiau CPO (CD A15))

- 15.3 Mae adran 4 y Datganiad hwn yn esbonio bod NGT wedi ystyried yr ystod ehangaf o opsiynau a allai fodloni ei ofynion gweithredol ac ymdopi â PARCA SHGCL ar gyfer mwy o gapasiti, heb ystyried barn gychwynnol ynglŷn â'u hyfywedd, ac wedi cynhyrchu Adroddiad Opsiynau Strategol sy'n amlinellu ei ganfyddiadau. Daethpwyd i'r casgliad fod angen atgyfnerthu'r NTS bresennol yn ffisegol i fodloni gofyniad PARCA SHGCL.
- 15.4 Ar ôl amlygu'r cynnig strategol a ffefrir, cynhaliwyd astudiaethau technegol ychwanegol a oedd yn cynnwys proses i amlygu'r llwybrau mwyaf priodol ar gyfer y ddwy ran newydd o biblinell.
- 15.5 Mae adran 5 y Datganiad hwn yn disgrifio'r seilwaith a fydd yn cynrychioli'r Prosiect a sut y bydd y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn (**CD C1**) yn cael ei ddefnyddio yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Mae Colofn 2 yr Atodlen i'r Gorchymyn yn esbonio p'un a gynigir caffael tir neu hawliau newydd ai peidio mewn perthynas â'r lleiniau wedi'u rhifo o Dir y Gorchymyn. Pan gynigir caffael hawliau newydd, mae'r disgrifiad yn nodi enw'r pecyn hawliau priodol. Mae hyn yn dangos bod gan NGT syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn (**CD C1**).
- 15.6 Mae'r holl dir a hawliau mewn tir y bwriedir eu caffael o dan y Gorchymyn (**CD C1**) yn ofynnol at ddiben y Prosiect ac yn rhesymol a chymesur. Yn bwysig, mae NGT yn defnyddio dull cymesur o gaffael tir, yn unol â pholisi a chanllawiau, ac nid yw'n bwriadu caffael unrhyw dir neu hawliau y tu hwnt i'r rhai hynny sy'n rhesymol ofynnol.
- 15.7 Mae NGT yn caffael hawliau dros dir yn hytrach na rhydd-ddaliad tir ym mhob achos ond un (h.y. tir yn safle T Churchover). Mae'r hawliau newydd a geisir gan NGT wedi cael eu gwahanu'n 'becynnau' yn seiliedig ar eu diben a'u cymhwyso i leiniau penodol, fel y bo'n briodol. Mae rhai o'r hawliau'n ofynnol at ddibenion dros dro yn unig, fel creu cyfadeiladau adeiladu, ac fe'u harferir yn ystod y cam adeiladu yn unig. Bydd hawliau eraill yn barhaol, fel yr hawl i osod, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r rhannau newydd o biblinell. Mae'r 'pecynnau' hawliau wedi cael eu teilwra yn y modd hwn i sicrhau bod dull cymesur o

brynu'n orfodol yn cael ei ddefnyddio, a bod yr effaith ar dirfeddianwyr a meddianwyr perthnasol yn cael ei chyfyngu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Bod y Prosiect yn annhebygol o gael ei atal gan unrhyw rwystrau ffisegol neu gyfreithiol rhag gweithredu (paragraff 15 y Canllawiau CPO (CD A15))

- 15.8 Fel yr esboniwyd yn adran 9 y Datganiad hwn, mae caniatâd cynllunio penodol wedi cael ei roi ar gyfer rhan o'r Prosiect a dibynnir ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y gweddill ohono.
- 15.9 Mae nifer o gydsyniadau/trwyddedau eraill yn ofynnol sy'n nodweddiadol ar gyfer datblygiad o natur y Prosiect, ac mae NGT yn gyfarwydd â chwmpas angenrheidiol y gwaith i gyflawni'r rhain. Os nodir bod angen cydsyniadau/trwyddedau ychwanegol wrth i ddyluniad manwl y Prosiect ddatblygu, mae NGT yn hyderus y bydd y rhain yn cael eu cytuno'n foddhaol gyda'r awdurdodau perthnasol hefyd.
- 15.10 Nid yw buddiannau yn Nhir y Gorchymyn a ddelir gan neu ar ran endid y Goron i'w caffael ac fe'u heithriwyd yn benodol o'r Gorchymyn **(CD C1)**.
- 15.11 Ni ystyrir bod unrhyw rwystrau ffisegol na chyfreithiol rhag gweithredu'r Prosiect.

Bod yr holl adnoddau angenrheidiol yn debygol o fod ar gael o fewn amserlen resymol (paragraffau 13 a 14 y Canllawiau CPO (CD A15))

- 15.12 Mae adran 11 y Datganiad hwn yn esbonio bod NGT yn fodlon y bydd yr arian sy'n ofynnol i dalu'r costau adeiladu a chaffael tir/iawndal am brynu gorfodol sy'n gysylltiedig â'r Prosiect ar gael pan fydd angen (gan gynnwys unrhyw daliadau o flaen llaw a hawliadau malltod).

Bod y dibenion y gwneir y Gorchymyn ar eu cyfer yn cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rhai hynny sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno ac y dylai ystyriaeth benodol gael ei rhoi i ddarpariaethau Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn ac, yn achos annedd, Erthygl 8 y Confensiwn (CD A1) (paragraff 12 y Canllawiau CPO (CD A15))

- 15.13 Mae'r Gorchymyn **(CD C1)** yn cael ei hyrwyddo er budd y cyhoedd. Mae NGT o'r farn y bydd y Gorchymyn **(CD C1)** yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng budd y cyhoedd wrth weithredu'r Prosiect a'r hawliau preifat hynny y bydd y Gorchymyn **(CD C1)** yn effeithio arnynt.
- 15.14 Fel yr esbonnir yn adran 5 y Datganiad hwn, mae pob llain o dir a ddisgrifir yn y Gorchymyn **(CD C1)** yn ofynnol at ddibenion y Prosiect.
- 15.15 Er y gallai perchnogion a meddianwyr Tir y Gorchymyn gael eu hamddifadu o'u heiddo/buddiant mewn eiddo os cadarnheir y Gorchymyn **(CD C1)**, bydd hyn yn unol â'r gyfraith ac mae NGT wedi defnyddio dull cymesur trwy geisio caffael y teitl rhydd-ddaliadol i Dir y Gorchymyn mewn un achos penodol yn unig h.y. ar gyfer seilwaith ar ben y tir yn safle T Churchover; bwriedir i fwyafrif Tir y Gorchymyn fod yn destun hawliau newydd yn unig.
- 15.16 Yn ogystal, bydd gan y rhai hynny y prynir eu buddiannau o dan y Gorchymyn **(CD C1)** yr hawl i gael iawndal a fydd yn daladwy yn unol â'r Cod Iawndal Prynu Gorfodol. Penderfynwyd bod y Cod Iawndal yn cydymffurfio ag Erthygl 8 ac Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn **(CD A1)**.
- 15.17 Felly, mae gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn, yn enwedig hawliau perchnogion eiddo, wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r Gorchymyn **(CD C1)** gael ei wneud a'i gadarnhau, a byddai'r ymyrraeth â hawliau preifat y rhai hynny yr effeithir arnynt, a fyddai'n digwydd yn anochel o ganlyniad i arfer pwerau prynu gorfodol a roddir gan y Gorchymyn **(CD C1)**, yn gyfreithlon, yn gyfiawnadwy ac yn gymesur.

Bod NGT wedi cymryd camau rhesymol i gaffael yr holl dir a hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn trwy gytundeb (paragraff 2 y Canllawiau CPO (CD A15)).

- 15.18 Mae NGT wedi ymrwymo i sicrhau'r tir a'r hawliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Prosiect trwy gytundeb gwirfoddol os oes modd, ac mae wedi gwneud ymdrechion penderfynol a pharhaus i ymgysylltu a negodi â thirfeddianwyr. Mae wedi cytuno ar 24 o Benawdau Telerau ar gyfer cytundebau gwirfoddol o gyfanswm o 27 sy'n ofynnol ac wedi cyfnewid dau gytundeb yn gyfreithiol ar yr adeg ysgrifennu.
- 15.19 Er mwyn rhoi sicrwydd y gellir sicrhau'r holl dir a hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect, bu angen i NGT symud ymlaen â'r Gorchymyn **(CD C1)** ar yr un pryd â thrafodaethau ynglŷn â chytuniadau preifat. Disgwylir hyn gan baragraff 2 y Canllawiau CPO **(CD A15)**. Fodd bynnag, mae NGT wedi ymrwymo o hyd i barhau i fwrw ymlaen â thrafodaethau a sicrhau'r tir a'r hawliau angenrheidiol trwy gytundeb.
- 15.20 Yn unol â hynny, mae NGT o'r farn bod y meini prawf yn y Canllawiau CPO **(CD A15)** wedi'u bodloni a bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gadarnhau'r Gorchymyn **(CD C1)**.

16. **Gwybodaeth Ychwanegol**

16.1 **Ymholiadau ynglŷn â'r Prosiect**

Dylai unigolion sydd â chwestiynau cyffredinol am y Prosiect gysylltu â Thîm Cysylltiadau Cymunedol NGT ar: **0800 319 6185** neu drwy anfon neges e-bost at: **wgnu@nationalgrid.com**

16.2 **Negodi caffaeliadau**

16.2.1 Dylai perchnogion a meddianwyr tir y mae'r Prosiect yn effeithio arno sy'n dymuno negodi cytundeb gwirfoddol neu drafod materion iawndal gysylltu ag asiantiaid penodedig NGT, sef Fisher German, drwy ffonio 07817119488 neu drwy anfon neges e-bost at Joe.senior@fisherman.co.uk.

16.3 **Iawndal**

16.3.1 Gwneir darpariaeth trwy statud o ran iawndal ar gyfer caffael tir yn orfodol a dibrisiant mewn gwerth eiddo. Rhoddir mwy o wybodaeth yn y gyfres o lyfrynnau a gyhoeddwyd gan yr Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o'r teitl "Prynu Gorfodol ac Iawndal" a restrir isod:

16.3.1.1 Llyfryn Rhif 1 – Gweithdrefn Prynu Gorfodol.

16.3.1.2 Llyfryn Rhif 2 – Iawndal ar gyfer Perchnogion a Meddianwyr Busnes.

16.3.1.3 Llyfryn Rhif 3 – Iawndal ar gyfer Perchnogion a Meddianwyr Amaethyddol.

16.3.1.4 Llyfryn Rhif 4 – Iawndal ar gyfer Perchnogion a Meddianwyr Preswyl.

16.3.1.5 Llyfryn Rhif 5 – Lleihau Effeithiau Niweidiol Datblygu Cyhoeddus: Gwaith Lliniaru.

16.3.2 Mae'r llyfrynnau ar gael i'w lawrlwytho am ddim ar-lein yn: www.gov.uk/government/collections/compulsory-purchase-system-guidance

16.3.3 Mae copi o'r Datganiad hwn, y Gorchymyn a'r mapiau ar gael i'w harchwilio yn <https://www.nationalgrid.com/gas-transmission/wgn#CPO>.

- 16.3.4 Gellir archwilio'r Gorchymyn, Mapiau'r Gorchymyn a'r Datganiad Achos yn y lleoliadau canlynol hefyd ar y diwrnodau canlynol ac yn ystod yr oriau canlynol:

<p>Llyfrgell Tewkesbury, Sun Street, Tewkesbury, GL20 5NX</p> <p>rhwng 9:30 a 17:00 ar ddydd Llun a dydd Gwener, 9:30 tan 19:00 ar ddydd Mawrth a dydd Iau a 9:30 tan 13:00 ar ddydd Mercher.</p>
<p>Canolfan Hamdden Pontardawe, Parc Ynysderw, Ffordd Parc Ynysderw, Pontardawe, Abertawe SA8 4EG</p> <p>rhwng 9:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.</p>
<p>Llyfrgell Evesham, Oat Street, Evesham, WR11 4PJ</p> <p>rhwng 9:30 a 19:00 ar ddydd Mawrth a 9:30 a 17:00 ar ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener</p>
<p>Y Gaer, Glamorgan Street, Aberhonddu LD3 7DW</p> <p>rhwng 9:30 a 17:30 ar ddydd Mercher a 9:30 a 17:00 ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener.</p> <p>Nid yw'r Amgueddfa'n derbyn ymwelwyr ar ôl 16:30 ar ddiwrnodau'r wythnos.</p>

Tabl Crynhoi Gwrthwynebiadau a diweddariad ar drafodaethau

Gwrthwynebydd	Rhifau lleiniau	Pecyn hawliau (os yw'n berthnasol)	Materion/pryderon godwyd mewn Gwrthwynebiad	Ymateb NGT	Diweddariad ar 8 Mawrth 2023
Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ("CRT") OBJ1 (CD C5)	9	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	<p>'Gwrthwynebiad daliannol' yw hwn tra'n disgwyl penderfyniad i naill ai:</p> <p>1. dileu buddiannau eiddo CRT o'r Gorchymyn; neu</p> <p>2. gwblhau cytundeb ysgrifenedig ag NGT sy'n mynd i'r afael â phryderon CRT; gan felly olygu y gellir tynnu'r Gwrthwynebiad yn ôl.</p> <p>Mae'r gwrthwynebiad yn codi pryderon ynglŷn ag effaith cynnal y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect ar Ragnant Afon Swift (lleiniau 9 ac 11 y Gorchymyn) a lefel yr ymgysylltiad rhwng NGT a CRT hyd yma.</p>	<p>Y strategaeth ar gyfer y Prosiect yw cynnwys yr holl dir sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Prosiect yn y Gorchymyn, hyd yn oed pan gytunwyd ar Benawdau'r Telerau ("HoTs") gyda thirfeddianwyr, neu pan gwblhawyd cytundebau yn unol â HoTs.</p> <p>Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau y bydd NGT yn gallu cwblhau'r broses o brynu'r tir/hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Prosiect:</p> <p>(1) os na chwblheir pryniant trwy gytundeb yn unol â HoTs, a fyddai'n peryglu cyflawni'r Prosiect yn amserol,</p> <p>(2) os bydd y tirfeddiannwr yn torri'r cytundeb a luniwyd yn unol â HoTs neu os canfyddir ei fod yn anghyfreithlon / yn annilys / yn anorfodadwy, neu</p>	<p>Amlinellir y sefyllfa wedi'i diweddarau yn adran 10 y datganiad hwn ac fe'i hesbonnir ymhellach ym cofnod ymgysylltu.</p>
	11	Hawliau Mynediad			

				<p>(3) os daw buddiannau trydydd parti anhysbys yn y tir sy'n destun cytundeb i'r amlwg na nodwyd yn flaenorol er gwaethaf ymholiadau diwyd.</p> <p>Mae NGT yn fodlon ymrwymo i dirfeddianwyr i beidio ag arfer pwerau prynu gorfodol mewn perthynas â buddiannau'r tirfeddianwyr hynny sydd wedi cwblhau cytundebau gwirfoddol, ac eithrio os bydd tirfeddiannwr yn torri cytundeb neu os canfyddir bod cytundeb yn anghyfreithlon / yn annilys / yn anorfodadwy.</p> <p>Mae NGT yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw'r gwaith arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gwrs dŵr CRT. Mae NGT wedi cytuno â chais CFT bod y broses o gytuno ar fanylion / methodoleg a darparu hawliau yn cael ei thrin o dan y Prif Gytundeb rhwng NGT a CRT, yn hytrach nag o dan HoTs pwrpasol ar wahân a chytundeb teilwredig dilynol.</p>	
--	--	--	--	--	--

				<p>Ni ellir parhau â'r broses cymeradwyo gwaith a amlinellir yn y Prif Gytundeb hyd nes bod y broses dylunio manwl ar gyfer y Prosiect wedi cael ei chwblhau. Bydd y dyluniad manwl yn cael ei wneud gan gontractwyr NGT y disgwylir iddynt gael eu penodi ym mis Medi 2023.</p> <p>O ystyried na all y Prif Gytundeb symud ymlaen eto, mae llythyr ategol yn cael ei baratoi i roi sicrwydd ychwanegol i'r partïon a, phan fydd y llythyr ategol wedi'i gwblhau, bydd CRT yn gallu tynnu ei gwrthwynebiad yn ôl.</p> <p>Mae'r cofnod ymgysylltu yn Atodiad 2 sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn amlinellu'n glir yr ymgysylltiad rheolaidd sydd wedi digwydd rhwng NGT trwy ei asiantiaid tir penodedig, sef Fisher German, a CRT yn ystod y 12 mis diwethaf. At hynny, mae tîm Eiddo Tirol Eversheds Sutherland wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â chyfreithwyr penodedig CRT, sef Ward Hadaway, am fisoedd mewn cysylltiad</p>	
--	--	--	--	---	--

				<p>â'r Prif Gytundeb a negodi'r llythyr ategol y cyfeirir ato uchod.</p> <p>Nid yw NGT yn credu ei bod yn rhesymol nac yn ffeithiol gywir i CRT awgrymu na fu ymgysylltiad ystyrion yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth ar Brynu Gorfodol a Rheolau Crichel Down (Gorffennaf 2019).</p>	
<p>Endidau National Grid Distribution ("endidau NGED")</p> <p>OBJ2 (CD C6)</p> <p>National Grid Electricity Distribution (East Midlands) Plc,</p>	2	Hawliau Mynediad Adeiladu	Nid yw endidau NGED yn gwrthwynebu'r Gorchymyn mewn egwyddor.	<p>Mae'r Prosiect yn brosiect hanfodol i atgyfnerthu'r rhwydwaith nwy, felly ni fydd yn cael unrhyw effaith ar ddiogeledd y cyflenwad trydan yn yr ardal ynddo'i hun.</p> <p>O ran effaith y gwaith ei hun, ac yntau'n gyd-ymgymerwr statudol, mae NGT yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw'r gwaith arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfarpar endidau NGED.</p> <p>Bydd peirianwyr cyfarwyddo NGT yn sicrhau na fydd unrhyw ryngweithiad</p>	<p>Amlinellir y sefyllfa wedi'i diweddarau yn adran 3 y datganiad hwn ac fe'i hesbonnir ymhellach ym cofnod ymgysylltu.</p>
	176	Hawliau Mynediad Adeiladu	'Gwrthwynebiad daliannol' yw hwn gan fod endidau NGED eisiau deall:		
	4	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	<ul style="list-style-type: none"> Sut bydd y cynnig yn sicrhau diogeledd y cyflenwad trydan yn eu hardaloedd unigol. 		
	9	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	<ul style="list-style-type: none"> Sut bydd y cynnig yn gwarchod eu rhwydweithiau trydan yn ystod cyfnod 		
	15	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell			

National Grid Electricity Distribution (West Midlands) Plc a	48	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	adeiladu'r cynllun ac ar ôl iddo gael ei gwblhau.	ag asedau endidau NGED yn digwydd heb ymgynghori ag endidau NGED o flaen llaw i gadarnhau unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol cyn i'r gwaith gael ei wneud, a bydd yr holl waith yn cael ei gynnal yn unol â gofynion iechyd a diogelwch. Os canfyddir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, byddai NGT yn fodlon llunio cytundeb amddiffyn seilwaith mewn egwyddor. Gohebiaeth rhwng Western Power Distribution (WPD) (sef y Grid Cenedlaethol bellach) ar ran yr endidau NGED ac asiantiaid tir penodedig NGT, sef Fisher German, lle y cadarnhaodd WPD fod cyfarpar endidau NGED o fewn tir y Gorchymyn yn cynnwys llinellau uwchben 11kV a rhan fach o linell uwchben 66kV yn bennaf, a chyn belled y cydymffurfir â gofynion iechyd a diogelwch yn ymwneud â gweithio'n agos i linellau uwchben, bod endidau NGED yn fodlon i waith arfaethedig NGT gael ei gynnal
	64	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	<ul style="list-style-type: none"> • Union fanylion dylunio neu adeiladu'r cynllun, ac felly goblygiadau gweithredol posibl. 	
National Grid Electricity Distribution (South Wales) Plc.	68	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	<ul style="list-style-type: none"> • Union fanylion yr hawliau a'r buddiannau eiddo y bydd gweithredu'r Gorchymyn yn effeithio arnynt. 	
	76	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell	Mae endidau NGED hefyd yn pryderu y gallai'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn achosi niwed difrifol i gynnal eu cyfrifoldebau statudol, a allai achosi effaith negyddol ar ddsbarthu trydan. Felly, mae'n bosibl y bydd pob endid NGED yn mynnu bod NGT yn llunio cytundeb amddiffyn asedau cyn i'r Gorchymyn gael ei gadarnhau.	
	91	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell		
	143	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell		
	146	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell		
	160	Hawliau Piblinell a Hawliau Adeiladu Piblinell		
	8	Hawliau Piblinell		
19	Hawliau Piblinell			

	50	Hawliau Piblinell		<p>ac nid oedd ganddynt unrhyw ofynion eraill.</p> <p>Mae NGT wedi ymrwymo i weithio gydag endidau NGED i sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n weddill yn derbyn sylw, ac i sicrhau bod y Gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl.</p>	
	82	Hawliau Piblinell			
	144	Hawliau Piblinell			
	11	Hawliau Mynediad			
	17	Hawliau Mynediad			
	18	Hawliau Mynediad			
	31	Hawliau Mynediad			
	32	Hawliau Mynediad			
	49	Hawliau Mynediad			
	62	Hawliau Mynediad			
	69	Hawliau Mynediad			
	75	Hawliau Mynediad			
	158	Hawliau Mynediad			
	161	Hawliau Mynediad			
	16	Hawliau Lagŵn			

	148	Hawliau Draenio			
	21	Hawliau Cyfadeilad Adeiladu			
Ian Miles OBJ 3 (CD C7)	64		Caffaelodd Ian Miles rydd-ddaliad y tir a gynhwysir yn lleiniau 64, 65, 66 a 68 yn ddiweddar, ac mae ganddo hawl dramwy a chyfamod cyfyngu dros lain 67. Mae'n codi pryderon ynglŷn â'r pwyntiau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Ystyried dewisiadau amgen • Cyfrifo iawndal yng nghydestun trafodaethau gwirfoddol • Ystyriaethau cyflenwad ynni 	Mae adran 3 y Datganiad o'r Rhesymau (CD C3) yn esbonio pam mae angen y Prosiect ac mae adran 4 yn amlinellu'n fanwl y dewisiadau amgen yn lle'r Prosiect, a'r llwybrau amgen ar gyfer piblinell, a ystyriwyd gan NGT. Mae NGT yn hyderus bod proses asesu gadarn wedi cael ei chynnal a gadarnhaodd mai'r Prosiect y mae'r Gorchymyn yn cael ei hyrwyddo ar ei gyfer yw'r modd mwyaf priodol o fodloni'r angen a nodwyd. Er bod NGT yn deall bod lefel yr iawndal ar gyfer caffael hawliau (hawddfrait) dros dir yn bwysig i dirfeddiannwr, nid yw'n sail ddilys dros wrthwynebu. Mae trafodaethau i gaffael y tir a'r hawliau newydd sy'n angenrheidiol ar gyfer y Prosiect yn cael eu cynnal gan Fisher German ("FG"), sy'n gweithredu	Amlinellir y sefyllfa wedi'i diweddarar yn adran 7 y datganiad hwn ac fe'i hesbonnir ymhellach ym cofnod ymgysylltu.
	65				
	66				
	68				
	67				

				<p>ar ran ac yn cael eu rheoli/cyfarwyddo gan NGT, yn unol â'r Strategaeth Hawliau Tir.</p> <p>Mae NGT yn deall bod trafodaethau'n parhau ac mae'r Gwrthwynebiad yn cydnabod y bu nifer o alwadau ffôn, llythyrau a chyfarfod gyda FG ynglŷn â'r Prosiect/caffael hawliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Prosiect. Mae NGT wedi ymrwymo i ddod i gytundeb gwirfoddol, os oes modd, a byddai'n croesawu ymgysylltiad parhaus mewn trafodaethau.</p> <p>Mae'r gwerth tir ar gyfer y cyfrifiad yn gyson â'r symiau a gynigiwyd ar draws y Prosiect. Fe'i pennwyd ar ôl dadansoddi'r farchnad trafodiadau tir ynghyd â'r strategaeth hawliau tir ar gyfer y Prosiect. Er gwaethaf ceisiadau, nid yw FG wedi derbyn tystiolaeth i gefnogi gwerth tir gwahanol i'r symiau a gynigiwyd.</p> <p>Pe byddai pwerau prynu gorfodol yn cael eu harfer, byddai'r iawndal sy'n</p>	
--	--	--	--	---	--

				<p>ddyledus yn cael ei asesu yn unol â'r corff deddfwriaeth a chyfraith achosion a adwaenir fel y 'Cod Iawndal'.</p> <p>Er bod cyflenwad ynni'n ystyriaeth allweddol i NGT yng nghyd-destun ei rôl fel perchennog a gweithredwr y system drawsgludo nwy genedlaethol, National Grid Electricity Transmission Plc sy'n gyfrifol am drawsyrro trydan a sicrhau bod toriadau trydan yn cael eu hosgoi. Felly, nid yw pryderon ynglŷn â thoriadau trydan yn berthnasol i hyrwyddo'r Gorchymyn ar gyfer prosiect nwy.</p>	
David Gareth Jones a Caroline Jones OBJ 4 (CD C8)	178		Mae David Gareth Jones a Caroline Jones yn berchen ar y tir yn lleiniau 178 a 179.	<p>Diben y prosiect yw galluogi mwy o nwy i gael ei drawsgludo o Aberdaugleddau, ac ar draws rhwydwaith trawsgludo NGG.</p> <p>Mae'r Gorchymyn wedi cael ei hyrwyddo i alluogi NGT i gaffael yn orfodol y tir a'r hawliau y mae arno eu hangen i adeiladu'r Prosiect os na ellir dod i gytundeb gwirfoddol. Cynhwyswyd Lleiniau 178 a 179 ("y Lleiniau") a Llain 177 a berchenogir gan eraill, yn y Gorchymyn i alluogi NGT i greu, defnyddio a symud ymaith cyfadeilad a mynediad dros dro i hwyluso gwaith addasu i Orsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw.</p>	<p>Amlinellir y sefyllfa wedi'i diweddarau yn adran 6 y datganiad hwn ac fe'i hesbonnir ymhellach ym cofnod ymgysylltu.</p>
	179		<p>Mae'r gwrthwynebiad wedi cael ei wneud gan fod y lleoliad arfaethedig yn anaddas oherwydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. materion mynediad b. topograffeg 		

			<p>c. risgiau iechyd a diogelwch o ganlyniad i'r gwifrau uwchben foltedd uchel a phibellau nwy gwasgedd uchel o dan y ddaear</p> <p>ch. mae'r tir yn cael ei ddefnyddio i bori da byw ar hyn o bryd sy'n golygu bod angen mynediad parhaus trwy'r trac fferm bob dydd</p> <p>d. ni chynhaliwyd arolwg ar droed at ddibenion amgylcheddol</p> <p>dd. nid yw NGT wedi cychwyn trafodaethau ystyrion i gaffael yr hawliau angenrheidiol dros y tir trwy gytundeb.</p> <p>Awgrymir lleoliad amgen hefyd sy'n fwy addas oherwydd defnyddiwyd y safle hwn wrth adeiladu'r orsaf dosbarthu nwy flaenorol.</p>	<p>Roedd y gwaith dylunio a amlygodd yr angen i wneud gwaith addasu ac a lywiodd y gofynion tir yng Nghil-ffriw (h.y. yr angen am y Lleiniau a Llain 177) wedi'i seilio ar dybiaethau penodol ynglŷn â gallu pibwaith ac offer presennol i lifo nwy yn ddiogel ar wasgedd (uwch) wedi'i uwchraddio. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'r Gweithgynhyrchwyr Offer Gwreiddiol (OEM) gael data hanfodol ynglŷn â gallu pibwaith/offer presennol Cil-ffriw i lifo nwy yn ddiogel ar wasgedd wedi'i uwchraddio, a'u rhoi i NGG.</p> <p>Mae NGT wedi derbyn ac adolygu'r data gan yr OEM bellach.</p> <p>Mae'r data'n cadarnhau y byddai angen gwneud addasiadau sylweddol i Orsaf Lleihau Gwasgedd Cil-ffriw er mwyn gallu cynyddu'r gwasgedd llifo nwy. Byddai graddfa'r gwaith y cadarnhawyd ei fod yn angenrheidiol yn golygu bod angen cau'r Orsaf Lleihau Gwasgedd dros dro ac, ynghyd â gwaith cynnal a</p>	
--	--	--	--	---	--

				<p>chadw hanfodol arall ar draws y rhwydwaith lleol, byddai'n cael effaith annerbyniol ar y gallu i drawsgludo nwy ar wasgedd digonol.</p> <p>Gan nad yw'r gwaith addasu yng Nghil-ffriw yn ofynnol i alluogi trawsgludo mwy o nwy o Aberdaugleddau (dim ond cadw hyblygrwydd presennol y system), mae NGT wedi penderfynu y dylai addasiadau uwchraddio Cil-ffriw gael eu dileu o'r Prosiect. Felly, nid oes angen y tir yng Nghil-ffriw a gynhwyswyd yn y Gorchymyn i greu a defnyddio cyfadeilad gwaith dros dro a mynediad iddo (y Lleiniau) mwyach.</p> <p>Mae NGT wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeled Ynni a Sero Net (Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn flaenorol), i esbonio nad oes angen y Lleiniau mwyach ac i ofyn iddynt gael eu dileu o'r Gorchymyn.</p>	
--	--	--	--	---	--

RHESTR DOGFENNAU CRAIDD

**THE NATIONAL GRID GAS PLC
(WESTERN GAS NETWORK PROJECT)
COMPULSORY PURCHASE ORDER 2022**

**CORE DOCUMENTS LIST
RHESTR DOGFENNAU CRAIDD**

A	LEGISLATION, GOVERNMENT AND OTHER CENTRAL GUIDANCE
Legislation	
1.	European Convention on Human Rights
1.1.	Article 6
1.2.	Article 8
1.3.	First Protocol, Article 1
2.	Land Compensation Act 1961
2.1.	Section 6(A)
3.	Acquisition of Land Act 1981
3.1.	Schedule 3
4.	Gas Act 1986
4.1.	Section 7
4.2.	Section 9
4.3.	Schedule 3
5.	Town and Country Planning Act 1990 (as amended)
6.	Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (as amended)
6.1.	Schedule 2, Part 4, Class A
6.2.	Schedule 2, Part 17, Class F
7.	Human Rights Act 1998
7.1.	Section 6
8.	Utilities Act 2000
8.1.	Section 3
9.	Compulsory Purchase (Inquiries Procedure) Rules 2007
9.1.	Rule 7

10.	Equality Act 2010
10.1.	Section 149
11.	Construction (Design and Management) Regulations 2015
12.	Town and Country Planning (General Permitted Development) (England) Order 2015
12.1.	Schedule 2, Part 4, Class A
12.2.	Schedule 2, Part 15, Class A
Government Guidance	
13.	National Policy Statement for Energy (EN-1) (July 2011)
14.	National Policy Statement for Gas Supply Infrastructure and Gas and Oil Pipelines (EN-4) (July 2011)
15.	The Department for Levelling Up, Housing and Communities Guidance on Compulsory Purchase process and The Criche Down Rules (July 2019)
16.	Draft replacement of the National Policy Statement for Energy (EN-1) (September 2021)
17.	Draft replacement of the National Policy Statement for Gas Supply Infrastructure and Gas and Oil Pipelines (EN-4) (September 2021)

B	PLANNING PERMISSION AND RELATED PLANNING APPLICATION DOCUMENTS
1.	BEIS Environmental Impact Assessment Scoping Opinion
2.	Environmental Impact Assessment Letter from Swansea Council dated 16 March 2021 (Felindre)
3.	Environmental Impact Assessment Letter from Neath Port Talbot Council dated 30 March 2021 (Cilfrew)
4.	Environmental Impact Assessment Letter from Powys County Council dated 15 March 2022 (Three Cocks)
5.	Planning permission granted on 8 August 2022 and given reference number R22/0130 for "Extension to National Grid's existing above ground installation (AGI) site at Churchover Tee"

C	COMPULSORY PURCHASE ORDER AND RELATED DOCUMENTS
1.	The Order
2.	Sealed Order Maps
3.	Statement of Reasons (English & Welsh)
4.	Statement of Case (English & Welsh)
5.	Letter of Objection – Canal & River Trust (Obj 1)

6.	Letter of Objection – National Grid Distribution Entities (Obj 2)
7.	Letter of Objection – Ian Miles (Obj 3)
8.	Letter of Objection – David Gareth Jones and Caroline Jones (Obj 4)
9.	Response to Objection - Canal & River Trust (Obj 1)
10.	Response to Objection - National Grid Distribution Entities (Obj 2)
11.	Response to Objection - Ian Miles (Obj 3)
12.	Response to Objection - David Gareth Jones and Caroline Jones (Obj 4)

D	ADDITIONAL PLANS
1.	Figure 1: Gas Ecosystem
2.	Insert 1: Emerging Preferred Route Corridor A3
3.	Insert 2: Emerging Preferred Route Corridor B2

E	MISCELLANEOUS
1.	NGG Gas Transporter Licence (February 2023)
2.	NGG's Payment Schedule for New Gas Transmission Assets
3.	National Grid's 'Our Approach to Options Appraisal' (2012)
4.	TD/1 'Steel pipelines and associated installations for high pressure gas transmission' Edition 5 (July 2016)
5.	National Grid's 'Stakeholder, Community and Amenity Policy' (December 2016)
6.	National Grid's Transmission Planning Code (2019)
7.	National Grid's 'Entry Capacity Substitution Methodology' (July 2021)
8.	National Grid's Cost Benefit Analysis
9.	Natural England's Agricultural Land Classification of England and Wales plans (2010)
10.	Uniform Network Code for the Joint Office of Gas Transporters (2005)
11.	National Grid's Strategic Options Report
12.	Entry Capacity Substitution Methodology Statement (July 2021)
13.	Future Energy Scenarios 2019
14.	Future Energy Scenarios 2020

RHESTR TERMAU

Term	Diffiniad
"AGI"	Seilwaith ar Ben y Tir
"AHNE"	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
"ASEP"	Pwynt Mynediad System Cyfanredol
"BPD"	Pellter Agosrwydd i Adeilad
"Canllawiau"	<i>Canllawiau ar y broses Prynu Gorfodol a Rheolau Criche! Down (Gorffennaf 2019) yr Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol</i>
"Canllawiau CPO"	<i>Canllawiau ar y broses Prynu Gorfodol a Rheolau Criche! Down (Gorffennaf 2019) yr Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol</i>
"CBA"	Dadansoddiad Cost a Budd
"CCS"	Dal a Storio Carbon
"CNG"	Nwy Naturiol Cywasgedig
"y Cod Iawndal"	Cod Iawndal Prynu Gorfodol
"y Confensiwn"	Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
"CRT"	Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
"Datganiad"	Datganiad Achos
"Deddf 1986"	Deddf Nwy 1986
"ECS"	Methodoleg Amnewid Capasiti Mynediad
"EN-1"	Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Ynni (EN-1) (Gorffennaf 2011)
"EN-4"	Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew (EN-4) (Gorffennaf 2011)
"Endidau NGED"	National Grid Electricity Distribution (East Midlands) Plc, National Grid Electricity Distribution (West Midlands) Plc a National Grid Electricity Distribution (South Wales) Plc, a adwaenir gyda'i gilydd fel yr "endidau NGED"
"ESO"	Gweithredwr System Drydan
"FEED"	Dyluniad Peirianeg Cychwynnol
"FES"	Senarios Ynni yn y Dyfodol
"FG"	Fisher German
"FIOC"	Capasiti Gorfodol Cynyddrannol a Ariennir
"GHG"	Nwy Tŷ Gwydr
"Gorchymyn"	Gorchymyn Prynu Gorfodol National Grid Gas Plc (Prosiect Rhwydwaith Nwy Gorllewinol) 2022
"GSO"	Gweithredwr System Nwy

Term	Diffiniad
"LNG"	Nwy Naturiol Hylifedig
"Mapiau'r Gorchymyn"	Mapiau sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn sy'n dangos Tir y Gorchymyn wedi'i liwio'n binc (caffael rhydd-ddaliad) a glas golau, glas tywyll, gwyrdd, porffor, melyn, oren, brown a chroeslinellau sengl coch (caffael 'pecynnau' o hawliau)
"MOP"	Gwasgedd Gweithredu Uchaf
"MSDR"	Cyfradd Ddyddiol Gynaliadwy Uchaf
"NGT"	National Grid Transmission Plc
"NPS"	Datganiadau Polisi Cenedlaethol
"NSIPs"	Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
"NTS"	System Drawsyrru Genedlaethol
"OEM"	Gweithgynhyrchwyr Offer Gwreiddiol
"PARCA"	Cytundeb Cynllunio a Neilltuo Capasiti o Flaen Llaw
"PIG"	Medrydd Mewnol Piblinell
"Polisi SCA"	Polisi Rhanddeiliaid, Cymuned ac Amwynder
"Prosiect"	Prynu tir a hawliau newydd mewn tir sy'n ofynnol i adeiladu a gweithredu rhan 9km newydd o biblinell nwy rhwng Wormington (Swydd Gaerloyw) a Honeybourne (Swydd Gaerwrangon); rhan 2km newydd o biblinell nwy yn Churchover (Swydd Warwig); gwaith i hwyluso uwchraddio gwasgedd y biblinell nwy bresennol rhwng Felindre (Abertawe) ac Aberllynfi (Powys) a Chil-ffriw (Castell-nedd Port Talbot)
"RIIO-T2"	Rheolaeth ar brisiau sy'n parhau am bum mlynedd, o 2021-2026 (Refeniw = Cymhellion + Arloesedd + Allbynnau)
"Rheoliadau CDM"	Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
"SHGCL"	South Hook Gas Company Limited
"SHLNG"	Nwy Naturiol Hylifedig South Hook
"STW"	Severn Trent Water
"TD/1"	'Piblinellau dur a gosodiadau cysylltiedig ar gyfer trawsgludo nwy gwasgedd uchel' Argraffiad 5 (Gorffennaf 2016) gan y Sefydliad Peirianwyr a Rheolwyr Nwy
"Terfynell South Hook"	Is-derfynell a berchnogir ac a weithredir gan Nwy Naturiol Hylifedig South Hook
"Tir y Gorchymyn"	Y tir sy'n destun pwerau prynu gorfodol ac a ddisgrifir yn adran 6 y Datganiad hwn
"TPC"	Cod Cynllunio Trawsgludo
"Trwydded"	Trwydded Trawsgludwr Nwy
"UKCS"	Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig
"WPD"	Western Power Distribution

Term	Diffiniad
"Ysgrifennydd Gwladol"	Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Atodiad 1- Pecynnau hawliau tir

Enw'r Pecyn Hawliau	Hawliau	Lliw ar y mapiau
Hawliau Adeiladu Piblinell	<p>Yr holl hawliau sy'n angenrheidiol at ddibenion adeiladu'r biblinell nwy newydd a seilwaith/cyfarpar/offer cysylltiedig, neu'n ddeilliadol i hynny, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) adeiladu a gosod y biblinell nwy a'r seilwaith/cyfarpar/offer cysylltiedig o fewn, ar neu dros y tir, gan gynnwys defnyddio technegau di-ffos; b) profi a chomisiynu'r biblinell a'r seilwaith/cyfarpar/offer cysylltiedig a osodir o fewn, ar neu dros y tir a chywiro namau a diffygion cychwynnol ynddynt ar unrhyw adeg cyn y dyddiad pryd y maent yn barod i weithredu'n fasnachol; c) cael mynediad i'r tir a chynnal arolygon ac ymchwiliadau, gan gynnwys arolygon o'r awyr (gan gynnwys yr hawl i hedfan cerbyd awyr di-griw dros y tir a chael mynediad i'r tir i adfer unrhyw gerbyd awyr di-griw o'r fath ohono); ch) cynnal gwaith archaeolegol, mesurau lliniaru amgylcheddol a/neu ecolegol; d) cynnal gwaith sy'n ofynnol neu a ganiateir gan ganiatâd cynllunio a/neu gydsyniad neu drwyddedau; dd) dileu ac amnewid, torri, trimio neu docio coed, llwyni, cnydau a llystyfiant arall, gan gynnwys cael gwared ar wrychoedd; e) codi a chael gwared ar ffensys; f) storio a phentyrru a, lle y bo'r angen, defnyddio, rheoli a phrosesu peiriannau, peirianwaith, cyfarpar, a deunyddiau (gan gynnwys deunydd wedi'i gloddio) a/neu offer; ff) cael mynediad i'r tir gyda cherbydau, peiriannau, peirianwaith, cyfarpar, offer, deunyddiau a phersonél, neu hebddynt; g) adeiladu, gosod, defnyddio a chael gwared ar ffyrdd mynediad, gan gynnwys unrhyw waith dros dro angenrheidiol i bontio, cwlffertio neu ddargyfeirio cyrsiau dŵr a draeniau; ng) cynnal gwaith dad-ddyfrio a draenio a gosod, newid, adfer neu ddileu systemau draenio tir; h) gollwng dŵr i mewn i ddraeniau a chysiau dŵr sydd eisoes yn bodoli; 	Glas golau

